

Nawfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Nawfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2024




Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Natasha Asghar AS
Ceidwadwyr Cymreig



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Peredur Owen Griffiths AS*
Plaid Cymru

*Ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaethau mewn perthynas â'r gŵyn ac nid oedd dirprwy yn bresennol ar ran Plaid Cymru.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Materion Rhagarweiniol	5
2.	Crynodeb o'r penderfyniad.....	8
3.	Ystyried Adroddiad y Comisiynydd a Thystiolaeth Bellach	13
	Dull gweithredu'r Pwyllgor.....	14
	Egwyddorion cyfiawnder naturiol a safon profi	14
	Asesu'r dystiolaeth a'r canfyddiadau	15
4.	Canfyddiadau'r Pwyllgor.....	18
	Canfyddiadau o ffaith 1, 2, 4, 13, 17, 19, 20 a 21.....	18
	Canfyddiadau o ffaith 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 18, 22 a 23.....	18
	Canfyddiadau o ffaith 5 a 6.....	19
	Canfyddiadau o ffaith 7 a 12.....	20
	Canfyddiadau o ffaith 8, 9, 10, 11, 18, 22 a 23.....	21
	Canfyddiadau 3, 14, 15, a 16.....	22
5.	Materion Gweithdrefnol a Chyflwyniadau	25
	Tegwch gweithdrefnol.....	25
	Ystyriaethau o ran Deddf Hawliau Dynol	25
	Rhagfarn.....	28
	Materion Pellach	48
	Derbyniadwyedd cwyn.....	50
	Cymhelliant	51
	Hyd y Gŵyn a phroses benderfyniadau'r Pwyllgor	52
6.	Penderfyniad ac argymhelliad y Pwyllgor.....	53
	Argymhelliad y Pwyllgor ar sancsiwn.....	56
7.	Materion o Egwyddor Gyffredinol	59
	Presenoldeb ac effaith alcohol	59

Gweithdrefnau Plaid Cymru.....	59
Aelodau newydd yn addasu i batrymau gwaith y Senedd	60
Cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.....	61
Gweithdrefnau'r Comisiynydd Safonau.....	61
Dewis Iaith Aelodau.....	61
Cyfarfod gweithdrefnol cychwynnol.....	61
Materion ychwanegol i'r gŵyn gychwynnol	62
Tystion yn cysylltu â'r Comisiynydd	62
Atodiad A: Cronoleg o drafodion y Pwyllgor	63

1. Cyflwyniad a Materion Rhagarweiniol

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.¹ Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

*"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi."*²

2. Sefydlwyd swydd Comisiynydd Safonau annibynnol y Senedd gan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur").

3. Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd³ ("y Weithdrefn") ac mae'n ymwneud â chwyn yn erbyn Rhys ab Owen AS ("yr Aelod").

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ystyriaeth y Pwyllgor o adroddiad Comisiynydd Safonau'r Senedd ("y Comisiynydd") a phenderfyniad y Pwyllgor ar y gŵyn.

5. Yr aelodau o'r Pwyllgor a ystyriodd y gŵyn oedd Vikki Howells AS, John Griffiths AS a Natasha Asghar AS.

6. Esgusododd Peredur Owen Griffiths AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor, ei hun rhag ystyried y mater hwn ar ôl i Glerc y Pwyllgor roi gwybod iddo ei fod wedi cael ei enwi yn adroddiad y Comisiynydd.

7. Wrth hysbysu'r Pwyllgor o'i benderfyniad i esgusodi ei hun o'r ystyriaeth, esboniodd Peredur Owen Griffiths AS ei fod ef a grŵp Plaid Cymru wedi cymryd camau i warchod ei ddiueddrwydd yn yr achos hwn drwy wneud yn siŵr nad oedd yn bresennol mewn unrhyw drafodaethau am y penderfyniad i atal yr Aelod o Grŵp Plaid Cymru, unwaith yr oedd yn hysbys bod cwyn wedi'i gwneud i'r Comisiynydd. Fodd bynnag, roedd holl aelodau eraill Grŵp Plaid Cymru yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â'r penderfyniad i wahardd Rhys ab Owen, "heb ragfarn", o'r Grŵp, tra'n aros am ganlyniad y gŵyn. Roedd hyn yn cynnwys y dewis arall a enwebwyd gan Blaid Cymru, sef Rhun ap Iorwerth AS. Yn unol â hynny, roedd yr hysbysiad gan Peredur Owen Griffiths AS hefyd yn datgan bod Grŵp Plaid Cymru

¹ Rheolau Sefydlog

² Rheol Sefydlog 22.2(i)

³ Gweithdrefn y Senedd ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

wedi cytuno i esgusodi eu hunain yn llwyr o drafodaethau'r Pwyllgor Safonau ynghylch y gŵyn a'r adroddiad hwn.

8. Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r dyddiadau allweddol o ran ei ystyriaeth o adroddiad y Comisiynydd a sut y daeth i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon yn y gronoleg yn atodiad A. Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor yn ystod ei drafodaethau gan ei ysgrifenyddiaeth ac wedi cael cyngor cyfreithiol allanol gan Caroline Rees CB. Cafodd yr Aelod ei gynghori gan ei gwnsler ei hun, Malcom Bishop CB.

9. Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

10. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried y trefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd a'r dogfennau cysylltiedig. Mae'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd yn darparu'r canlynol:

“8.26 Caiff y Pwyllgor olygu neu atal adroddiad y Comisiynydd yn ei gyfanrwydd – neu ran ohono – neu gyhoeddi crynodeb, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid nodi penderfyniad i olygu – a'r rheswm cyffredinol dros wneud hynny – yn adroddiad y Pwyllgor. Rhaid i'r rheswm dros wneud hynny naill ai:

(a) fod yn gyson â'r darpariaethau yn hysbysiad preifatrwydd y Pwyllgor; neu

(b) fod am resymau eraill pan fo'r Pwyllgor o'r farn bod risg o niwed neu drallod i unrhyw berson.”

11. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnwys dyfyniadau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd, sydd ar gael yn Saesneg yn unig, lle bo angen yn ei adroddiad. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â rhyddhau adroddiad y Comisiynydd ar sail paragraff 8.26 (a) a (b) o'r Weithdrefn. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn diogelu hunaniaeth y personau a enwir yn Adroddiad y Comisiynydd ac oherwydd y risg o drallod i'r rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon.

12. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod fersiwn gyda rhannau wedi'u dileu o adroddiad y Comisiynydd ac atodiadau a dogfennau cysylltiedig eraill ar gael i Aelodau o'r Senedd eu harchwilio yn breifat cyn i'r mater gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn. Mae hyn er mwyn galluogi Aelodau i gael mynediad at yr holl wybodaeth angenrheidiol fel rhan o'r broses benderfynu. Dilëwyd rhannau o adroddiad y Comisiynydd a'r dogfennau cysylltiedig er mwyn diogelu preifatrwydd y rhai dan sylw cyn belled â phosibl, a lleihau'r risg o drallod i'r rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn.

- 13.** Disgwylir i Aelodau o'r Senedd barchu'r amodau sy'n gysylltiedig ag edrych ar yr adroddiad, er mwyn cynnal cyfrinachedd gwybodaeth nad yw ar gael yn gyhoeddus. Rhaid i Aelodau beidio â cheisio cael gwybod pwy yw unrhyw un neu ragor o'r bobl sy'n ymwneud â'r gŵyn hon.
- 14.** Byddai methiant i gadw at yr amodau yn cael ei ystyried yn achos o dorri rheol 19 o'r Cod Ymddygiad.
- 15.** Dylai Aelodau o'r Senedd gysylltu â chlerc y Pwyllgor i drefnu amser i edrych ar adroddiad y Comisiynydd.

2. Crynodeb o'r penderfyniad

16. Daeth cwyn ysgrifenedig i law'r Comisiynydd ar 15 Awst 2022 mewn perthynas ag ymddygiad yr Aelod gyda'r nos ar 30 Mehefin – 1 Gorffennaf 2021. Ar 11 Hydref 2022, ar ôl penderfynu bod y gŵyn yn dderbyniadwy, ysgrifennodd y Comisiynydd i hysbysu'r Aelod o'r gŵyn a gofynnodd a oedd yr Aelod yn cyfaddef neu'n gwadu'r honiadau a ganlyn a wnaed gan yr Achwynydd.

"1. That at about 11:00pm on 30 June 2021 in Wetherspoon's Mount Stuart, Cardiff Bay [he was] very drunk.

2. That about 11:30pm that night in the street near to Wetherspoon's [he] twice called the Complainant 'a bitch'.

3. That at that time and place he put his arm around the Complainant and pulled her body close to his well knowing that his actions were unwanted by her.

4. That shortly thereafter in the rear of a taxi in transit between that location and Cardiff city centre he placed his left hand on her right thigh close to her groin and squeezed it hard.

5. That on several occasions since that date he had apologised the Complainant for his misconduct that night."

17. Anfonodd y Comisiynydd gopiâu o'r gŵyn wreiddiol a'r dogfennau ategol a ddarparwyd i'r Comisiynydd gan yr Achwynydd gyda'i lythyr hefyd.

18. Mewn ymateb i lythyr y Comisiynydd, derbyniodd yr Aelod bwyntiau 1 a 5 ond dywedodd nad oedd yn derbyn pwyntiau 2, 3 a 4.

19. Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i'r gŵyn a oedd yn cynnwys cyfweld â'r Aelod, yr Achwynydd, a nifer o dystion eraill a ddarparodd ddatganiadau gwirfoddol neu y penderfynodd y Comisiynydd eu cyfweld o dan lw gan ddefnyddio'r pwerau o dan adran 11 o'r Mesur. Gwnaeth y Comisiynydd y 23 canfyddiad o ffaith a ganlyn, y mae'r Pwyllgor wedi crynhoi rhai ohonynt neu ddileu rhannau ohonynt i ddiogelu hunaniaeth pobl ac i osgoi niwed neu drallod⁴:

Canfyddiad o Ffaith 1 - Ar noson 30 Mehefin 2021, cyn mynd i ginio ar gyfer Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd ym mwyty Côte, yfodd yr Aelod beint o gwrw.

⁴ Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion, darpariaeth 8.26

Canfyddiad o Ffaith 2 - Tra yr oedd yno, yfodd lawer o win.

Canfyddiad o Ffaith 3 - Gwnaeth sylwadau anwedus am [Aelodau o'r Senedd ac aelod o staff y Comisiwn].

Canfyddiad o Ffaith 4 - Ar ôl y cinio symudodd yr Aelod a nifer o Aelodau eraill i Wetherspoons lle gwnaethant gyfarfod â nifer o staff Plaid Cymru a oedd wedi bod mewn digwyddiad ar wahân.

Canfyddiad o Ffaith 5 - Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi yfed maint amrywiol o alcohol ac wedi meddwi i raddau amrywiol. Roedd yr Aelod yn fwy meddw na'r lleill a oedd yn bresennol.

Canfyddiad o Ffaith 6 - Gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd] mewn llais a oedd yn ddigon uchel i'w glywed gan y rhai wrth fyrddau cyfagos. [Sylwadau wedi'u dileu].

Canfyddiad o Ffaith 7 - Gwnaeth yr Aelod gyffwrdd yn amhriodol â chanol Tyst A.

Canfyddiad o Ffaith 8 - Yn y stryd ger Wetherspoons, galwodd yr Aelod yr Achwynydd yn 'bitch' ddwywaith.

Canfyddiad o Ffaith 9 - Cyffyrddodd â hi'n amhriodol drwy roi ei fraich o amgylch ei [yr achwynydd] chanol a thynnu ei chorff yn agos at ei gorff ef.

Canfyddiad o Ffaith 10 - Gan wybod nad oedd croeso iddo, aeth yr Aelod i sedd gefn tacsï ac eistedd wrth ymyl yr Achwynydd.

Canfyddiad o Ffaith 11 - Yn y tacsï cyffyrddodd â'r Achwynydd yn amhriodol trwy wasgu rhan uchaf ei choes yn galed â'i law.

Canfyddiad o Ffaith 12 - Pan gafodd ei herio gan Dyst A, galwodd yr Aelod hi yn 'bitch'.

Canfyddiad o Ffaith 13 - Yn y Boom Battle Bar, eisteddodd yr Aelod, Tyst A, Tyst B, Tyst C a'r Achwynydd gyda'i gilydd am oddeutu tair awr ac yfed mwy o alcohol y talwyd am ryw faint ohono gan yr Aelod.

Canfyddiad o Ffaith 14 - Tra yr oedd yno gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd].

Canfyddiad o Ffaith 15 - Gwnaeth sylwadau difenwol hefyd am [ddau Aelod o'r Senedd].

Canfyddiad o Ffaith 16 - Gwnaeth nifer o sylwadau cwbl amhriodol i Dyst A [Sylwadau wedi'u dileu]

Canfyddiad o Ffaith 17 - Erbyn iddo adael y Boom Battle Bar roedd yr Aelod yn ei eiriau ei hun yn 'very, very drunk'.

Canfyddiad o Ffaith 18 - Mewn cyfarfod rhithwir gyda'r Prif Chwip ar 2 Gorffennaf 2021, cyflwynwyd manylion llawn yr holl honiadau yn ei erbyn i'r Aelod.

Canfyddiad o Ffaith 19 - Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw anfonodd yr Aelod e-bost at y Prif Chwip yn ymddiheuro am ei 'ymddygiad meddwol nos Fercher.'

Canfyddiad o Ffaith 20 - Ar yr un diwrnod, anfonodd yr Aelod e-bost at Dyst A ac ymddiheurodd iddi am 'what happened on Wednesday'. [30 Mehefin 2021]

Canfyddiad o Ffaith 21 - Am tua 5pm y diwrnod hwnnw, ffoniodd yr Aelod yr Achwynydd ac, yn Gymraeg, dywedodd wrthi dro ar ôl tro ei bod yn ddrwg ganddo.

Canfyddiad o Ffaith 22 - Mae'r Aelod wedi cyfaddef bod ei ymddygiad wedi achosi poen meddwl i'r Achwynydd ac i eraill. Mae ei ymddygiad yn parhau i gael effaith andwyol ar yr Achwynydd.

Canfyddiad o Ffaith 23 - Ac eithrio bod yn feddw a gwneud sylwadau anwedus i Dyst A, nid yw'r Aelod yn derbyn unrhyw ymddygiad amhriodol tuag at yr Achwynydd na Thyst A ac nid yw wedi dangos unrhyw edifeirwch am hynny.

20. Roedd y Comisiynydd o'r farn bod y canfyddiadau o ffaith hyn gyfystyr â thorri'r rheolau a ganlyn yn y Cod Ymddygiad:

- Rheol 1 Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol;
- Rheol 3 Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol;
- Rheol 4 Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu;
- Rheol 6 Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo;

- Mynegodd y Comisiynydd hefyd farn bod ymddygiad yr Aelod yn mynd yn groes i Bolisi Urddas a Pharch y Senedd (yn enwedig o ran ymddygiad amhriodol sy'n effeithio'n andwyol ar urddas rhywun arall).

21. Derbyniodd yr Aelod Ganfyddiadau o Ffaith 1, 2, 4, 13, 17, 19, 20 a 21.

22. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys adroddiad y Comisiynydd a'i atodiadau, cyflwyniadau ysgrifenedig gan yr Aelod a'i gwrsel a chan y Comisiynydd, gwybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor amdani a sylwadau llafar yr Aelod a'i gwrsel:

- cytunodd y Pwyllgor â'r canfyddiadau o ffaith y derbyniodd yr Aelod, a chanfyddiadau 5, 6, 7, 8,9, 10, 11, 12 18, 22 a 23;
- ni wnaeth y Pwyllgor unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad mewn cysylltiad â chanfyddiadau o ffaith 3, 14, 15, ac 16, am y rhesymau gweithdrefnol a nodir isod ac o ystyried sefyllfa tyst A na wnaeth gwyn ac a gafodd ei galw gan y Comisiynydd i roi dystiolaeth. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn ystyried y canfyddiadau hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig wrth ddod i'w benderfyniad ar y canfyddiadau o ffaith eraill.

23. O ganlyniad, mae penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag 11 o'r materion (canfyddiadau 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 18, 22 a 23) a nodir ym mharagraff 22 uchod a'r canfyddiadau hynny y cyfaddefodd yr Aelod iddynt (1, 2, 4, 13, 17, 19, 20 a 21).

24. Nododd y Pwyllgor farn y Comisiynydd bod yr ymddygiad yn mynd yn groes i'r polisi Urddas a Pharch. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor bellach o'r farn bod y polisi hwn yn cael ei gynnwys o dan Reol 1 o'r Cod Ymddygiad i gynnal wyth egwyddor gyffredinol y Cod ac yn benodol yr egwyddor Parch⁵ a rheol 4 o'r Cod Ymddygiad.⁶

25. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'r cyflwyniadau, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bod ymddygiad yr Aelod, o ran y canfyddiadau y cytunodd y Pwyllgor arnynt, wedi torri'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â Rheolau un, tri, pedwar a chwech ac mae'n argymhell y dylid gwahardd yr Aelod am gyfnod o 42 diwrnod heb gynnwys y toriad.

⁵ Mae'r Egwyddor Parch yn nodi: "Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir."

⁶ Mae Rheol 4 yn nodi: "Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu."

26. Mae dull gweithredu ac ystyriaeth y Pwyllgor o'r materion hyn wedi'u nodi yn yr adrannau a ganlyn o'r adroddiad:

- Dull gweithredu'r Pwyllgor o ran yr achos – pennod tri;
- Canfyddiadau'r Pwyllgor – pennod pedwar;
- Ystyried materion a heriau gweithdrefnol – pennod pump;
- Penderfyniad ac argymhelliad y Pwyllgor – pennod chwech;
- Materion o egwyddor gyffredinol sy'n codi – pennod saith.

3. Ystyried Adroddiad y Comisiynydd a Thystiolaeth Bellach

27. Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).⁷

28. Wrth gytuno ar sut i fynd ati i ystyried y mater hwn, penderfynodd y Pwyllgor, er tegwch, i beidio â gwahodd y Comisiynydd i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ac yn hytrach gofyn am eglurhad a gwybodaeth bellach gan y Comisiynydd yn ysgrifenedig. Rhannwyd ymatebion a gwybodaeth ychwanegol gan y Comisiynydd gyda'r Aelod, a gafodd y cyfle i roi sylwadau ar y dogfennau hyn.

29. Yn ystod ei ystyriaeth, derbyniodd y Pwyllgor gyngor i beidio â chwilio am wybodaeth ar y rhyngwyd neu ar gyfryngau eraill mewn perthynas â'r achos hwn ac i anwybyddu unrhyw beth y gallent fod wedi dod ar ei draws fel arall.

30. Wrth ystyried a oedd y Cod Ymddygiad wedi'i dorri, aeth y Pwyllgor ymlaen felly ar sail y dystiolaeth a nodir yn:

- Adroddiad ac atodiadau'r Comisiynydd;
- Sylwadau ysgrifenedig cychwynnol yr Aelod;
- Ymatebion y Comisiynydd i gwestiwn ysgrifenedig a ofynnwyd iddo gan y Pwyllgor;
- Sylwadau ysgrifenedig a chyfreithiol pellach yr Aelod a dogfennaeth ychwanegol mewn ymateb i ymatebion y Comisiynydd;
- Ymatebion ysgrifenedig pellach a sylwadau gan y Comisiynydd;
- Tystiolaeth bellach a gafwyd gan y Comisiynydd ar gais y Pwyllgor;
- Sylwadau llafar yr Aelod a'r cwnsler wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor.

⁷ Rheol sefydlog 22.2(i) Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol:

(i) mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod heb gydymffurfio: (a) â Rheol Sefydlog 2; (b) ag unrhyw benderfyniad gan y Senedd ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau; (c) â Rheol Sefydlog 5; (d) ag unrhyw benderfyniad gan y Senedd ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau; (e) ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf; (f) â Rheol Sefydlog 3; neu (g) â Rheol Sefydlog 4, ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi;

- 31.** Mae'r dyddiad y daeth y dogfennau hyn i law a manylion y dogfennau hyn wedi'u nodi yn gronolegol yn yr atodiad.
- 32.** Ar ôl bodloni ei hun bod y Comisiynydd wedi ateb, yn ddigonol, gwestiynau cychwynnol y Pwyllgor i gael eglurhad, cytunodd y Pwyllgor i symud i'r cam sylwadau o'r Weithdrefn. Digwyddodd y cam hwn ar 23 Hydref 2023, pan ddaeth yr Aelod i'r cyfarfod yn bersonol, yng nghwmni ei gwmsler.
- 33.** Cyn y cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad cyfreithiol ysgrifenedig gan gwmsler yr Aelod a chyflwyniadau ysgrifenedig pellach gan yr Aelod.
- 34.** Rhoddodd y Pwyllgor ganiatâd i'r cwmsler annerch y Pwyllgor yn ogystal â'r Aelod ei hun. Clywodd y Pwyllgor sylwadau helaeth a gaiff eu hystyried yn y bennod nesaf.
- 35.** Yn dilyn y cam sylwadau, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am nifer o ddogfennau pellach gan y Comisiynydd a gofyn iddo ymchwilio i faterion pellach a gododd o'r sylwadau.

Dull gweithredu'r Pwyllgor.

Egwyddorion cyfiawnder naturiol a safon profi

- 36.** Mae adran 3.1 o'r Weithdrefn yn gosod rhwymedigaeth ar y Comisiynydd i weithredu bob amser yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol a thegwch. O ganlyniad, wrth ystyried ei benderfyniad, bu'r Pwyllgor yn ystyried p'un a ymchwiliwyd i'r Aelod gan berson a oedd yn deg ac yn ddiduedd, a chlywodd y ddwy ochr i'r ddadl; a bod yr Aelod wedi cael rhybudd teg o'r gwyn yn ei erbyn a chyfle teg i ateb y gwyn.
- 37.** Nododd y Pwyllgor na fyddai'r weithdrefn na'r broses yn cael eu hystyried yn deg pe bai'r ymchwiliad neu'r penderfyniad yn cael ei wneud gyda rhagfarn wirioneddol neu ganfyddedig. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gyfraith ar ragfarn ymddangosiadol yn gofyn a fyddai'r broses yn gadael arsylwr teg a gwybodus i ddod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol bod y canfyddwr ffeithiau neu'r sawl sy'n gwneud penderfyniad yn rhagfarnllyd. Rhaid i'r broses, felly, gael ei gweld yn un deg, ond yn yr un modd rhaid i'r arsylwr teg a gwybodus fabwysiadu agwedd gytbwys heb fod yn hunanfodlon nac yn rhy amheus.
- 38.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r safon profi i'w chymhwyso oedd y safon cydbwysedd tebygolrwydd, sy'n golygu, o ran y dystiolaeth a gyflwynwyd, bod y digwyddiadau y cwynwyd amdanynt yn fwy tebygol na pheidio.

39. Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd fod y Llysoedd wedi penderfynu, er nad oes safon uwch i'w chymhwyso mewn materion fel y rhai yn y gŵyn hon, lle mae'r honiadau'n ddifrifol, y dylid rhoi mwy o sylw i ansawdd a grym y dystiolaeth i fodloni'r safon. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o ymwybodol o'r ystyriaeth hon wrth wneud penderfyniadau.

Asesu'r dystiolaeth a'r canfyddiadau

40. Nododd y Pwyllgor y diffiniadau yn y Cod Ymddygiad mewn perthynas ag "aflonyddu" ac "ymddygiad nas dymunir", a nodir yn rhan 2 o'r Cod Ymddygiad. Y diffiniadau hyn yw:

ystyr "aflonyddu" yw ymddygiad digroeso sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn neu sy'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i unigolyn ac sy'n cynnwys aflonyddu rhywiol;

ystyr "ymddygiad nas dymunir" yw ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd, ac ni waeth a yw'n digwydd mwy nag unwaith neu a yw'n ddigwyddiad unigol.

41. Mae'r Cod yn datgan y canlynol wrth gymhwyso'r diffiniadau hyn:

- mae bwriad y person y gwneir cwyn amdano yn amherthnasol;
- y prawf yw a fyddai person rhesymol a diduedd o'r farn y byddai'r ymddygiad yn dod o fewn un o'r diffiniadau gan roi sylw i gyd-destun yr ymddygiad y gwneir cwyn amdano;
- rhaid parchu hawliau perthnasol y person y gwneir cwyn amdano a'r person sy'n ddarostyngedig i'r ymddygiad o dan sylw o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

42. O ystyried natur yr honiad yn yr adroddiad hwn, cafodd y Pwyllgor gyngor ar sut y dylai ymdrin â'r gŵyn ganolog o gyffwrdd nas dymunir.

Osgoi rhagdybiaethau

43. Nododd y Pwyllgor nad oes sefyllfa arferol o ran y mathau hyn o gwynion. Mae pobl yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd, ac nid oes ymateb nodweddiadol. Cynghorwyd y Pwyllgor hefyd i ystyried a oedd unrhyw anghydbwysedd pŵer rhwng yr Aelod a'r Achwynydd o ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar ymateb yr Achwynydd.

Amseriad y Gŵyn

44. Nid yw amseriad y gŵyn, boed ei bod yn cael ei gwneud ar unwaith neu fod oedi cyn ei gwneud, yn arwydd o wirionedd y gŵyn. Mae gwahanol bobl yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Nododd y Pwyllgor holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys y rhesymau a roddwyd am yr oedi gan yr Achwynydd a'r cyflwyniadau a wnaed gan yr Aelod wrth ystyried amseriad y gŵyn.

Cyfrifon anghyson

45. Ni ddylid cymryd yn ganiataol, oherwydd bod tyst wedi rhoi adroddiadau gwahanol, fod tystiolaeth y tyst hwnnw yn anwir. Mae profiad wedi dangos y gall anghysondebau ddigwydd p'un a yw tyst yn dweud y gwir ai peidio. Efallai y bydd rhai yn mynd dros ddigwyddiad lawer gwaith yn eu meddwl a bod eu cof yn dod yn gliriach dros amser. Efallai y bydd eraill yn cau digwyddiad o'u meddwl ac felly'n cael anhawster cofio materion yn ddiweddarach. Nododd y Pwyllgor hyn ac ystyriodd y mater hwn ar sail y dystiolaeth gyfan, gan gynnwys unrhyw anghysondebau ac effaith unrhyw anghysondebau ar ddibynadwyedd tystion.

Arddangos (neu ddiffyg) emosiwn/trallod ar adeg y gŵyn gyntaf

46. Wrth ystyried cyflwr emosiynol yr Achwynydd wrth wneud y gŵyn gyntaf, rhaid cofio nad oes ymateb nodweddiadol. Gall rhai ddangos trallod. Gall eraill fod yn ddigynnwrf heb ddangos emosiwn. Rhaid cofio efallai na fydd rhai am ddangos eu cyflwr emosiynol gwirioneddol. Rhaid ystyried a oedd yr ymateb yn ddilys. Os canfyddir ei fod yn ddilys, yna gall fod o gymorth wrth benderfynu a yw'r achos wedi'i brofi. Os na chanfyddir ei fod yn ddilys, yna nid yw hynny o unrhyw gymorth. Dylai canfyddwr ffeithiau osgoi gwneud unrhyw asesiad yn seiliedig ar unrhyw syniad rhagdybiedig o sut y dylai person yn y sefyllfa hon ymddwyn.

Arddangos (neu ddiffyg) emosiwn/trallod wrth adrodd hanes i'r ymchwilydd

47. Nid yw'r ffordd yr adroddodd yr Achwynydd ei hanes i'r Comisiynydd yn arwydd da o ran a yw'r honiad yn wir ai peidio. Mae pobl yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai yn dangos emosiwn ac nid yw eraill yn gwneud hynny. Nid yw presenoldeb neu ddiffyg emosiwn wrth gyfweled yn arwydd da o ran a yw person yn dweud y gwir ai peidio.

Gwrthrychedd

48. Nododd y Pwyllgor na ddylai ganiatáu i emosiwn gymylu asesiad gwrthrychol o'r ffeithiau.

Cyfnertiad

49. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw cyfnertiad yn ofyniad, ond nodwyd bod yna rywffaint o gyfnertiad gan dystion yn yr achos hwn, a chraffwyd ar hynny'n ofalus gan ystyried y cyngor yn ei gyfanrwydd.

4. Canfyddiadau'r Pwyllgor

50. Gwnaeth y Comisiynydd 23 o ganfyddiadau o ffaith. Mae'r adran hon yn nodi penderfyniadau'r Pwyllgor ar ôl ystyried y canfyddiadau hyn, a materion eraill sy'n codi o adroddiad y Comisiynydd a'i atodiadau a'r cyflwyniadau helaeth gan yr Aelod ac ymatebion y Comisiynydd i'r cyflwyniadau hynny. Mae'r ffeithiau wedi'u grwpio gyda'i gilydd er hwylustod fel a ganlyn.

Canfyddiadau o ffaith 1, 2, 4, 13, 17, 19, 20 a 21

Canfyddiad 1 Ar noson 30 Mehefin 2021, cyn mynd i ginio ar gyfer Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd ym mwyty Côte, yfodd yr Aelod beint o gwrw.

Canfyddiad 2 Tra yr oedd yno, yfodd lawer o win.

Canfyddiad 4 Ar ôl y cinio symudodd yr Aelod a nifer o Aelodau eraill i Wetherspoons lle gwnaethant gyfarfod â nifer o staff Plaid Cymru a oedd wedi bod mewn digwyddiad ar wahân.

Canfyddiad 13 Yn y Boom Battle Bar, eisteddodd yr Aelod, Tyst A, Tyst B, Tyst C a'r Achwynydd gyda'i gilydd am oddeutu tair awr ac yfed mwy o alcohol y talwyd am rywfaint ohono gan yr Aelod.

Canfyddiad 17 Erbyn iddo adael y Boom Battle Bar roedd yr Aelod yn ei eiriau ei hun yn 'very, very drunk'.

Canfyddiad 19 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw anfonodd yr Aelod e-bost at y Prif Chwip yn ymddiheuro am ei 'ymddygiad meddwol nos Fercher.'

Canfyddiad 20 Ar yr un diwrnod, anfonodd yr Aelod e-bost at Dyst A ac ymddiheurodd iddi am 'what happened on Wednesday' [30 Mehefin 2021].

Canfyddiad 21 Am tua 5pm y diwrnod hwnnw, ffoniodd yr Aelod yr Achwynydd ac, yn Gymraeg, dywedodd wrthi dro ar ôl tro ei bod yn ddrwg ganddo.

51. Yn ei sylwadau ar 10 Mai 2022 ar Ganfyddiadau o Ffaith drafft y Comisiynydd, derbyniodd yr Aelod y canfyddiadau hynny. Mae'r Pwyllgor, felly, wedi trin y rhain fel ffeithiau a gyfaddefwyd.

Canfyddiadau o ffaith 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 18, 22 a 23

52. Mae'r canfyddiadau ffeithiol hyn yn ymwneud â'r gŵyn ysgrifenedig wreiddiol a wnaed gan yr Achwynydd ar 15 Awst 2022.

Canfyddiad 5 Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi yfed maint amrywiol o alcohol ac wedi meddwi i raddau amrywiol. Roedd yr Aelod yn fwy meddw na'r lleill a oedd yn bresennol.

Canfyddiad 6 Gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd] mewn llais a oedd yn ddigon uchel i'w glywed gan y rhai wrth fyrddau cyfagos. [Sylwadau wedi'u dileu].

Canfyddiad 7 Gwnaeth yr Aelod gyffwrdd yn amhriodol â chanol Tyst A.

Canfyddiad 8 Yn y stryd ger Wetherspoons, galwodd yr Aelod yr Achwynydd yn 'bitch' ddwywaith.

Canfyddiad 9 Cyffyrddodd â hi'n amhriodol drwy roi ei fraich o amgylch ei [yr Achwynydd] chanol a thynnu ei chorff yn agos at ei gorff ef.

Canfyddiad 10 Gan wybod nad oedd croeso iddo, aeth yr Aelod i sedd gefn tacsï ac eistedd wrth ymyl yr Achwynydd.

Canfyddiad 11 Yn y tacsï cyffyrddodd â'r Achwynydd yn amhriodol trwy wasgu rhan uchaf ei choes yn galed â'i law.

Canfyddiad 12 Pan gafodd ei herio gan Dyst A, galwodd yr Aelod hi yn 'bitch'.

Canfyddiad 18 Mewn cyfarfod rhithwir gyda'r Prif Chwip ar 2 Gorffennaf 2021, rhoddwyd manylion llawn yr holl honiadau yn ei erbyn i'r Aelod.

Canfyddiad 22 Mae'r Aelod wedi cyfaddef bod ei ymddygiad wedi achosi poen meddwl i'r Achwynydd ac i eraill. Mae ei ymddygiad yn parhau i gael effaith andwyol ar yr Achwynydd.

Canfyddiad 23 - Ac eithrio bod yn feddw a gwneud sylwadau anwedus i Dyst A, nid yw'r Aelod yn derbyn unrhyw ymddygiad amhriodol tuag at yr Achwynydd na Thyst A ac nid yw wedi dangos unrhyw edifeirwch am hynny.

Canfyddiadau o ffaith 5 a 6

53. Canfu'r Comisiynydd, yn dilyn pryd o fwyd yn Côte Brasserie ar 30 Mehefin 2021, fod grŵp o Aelodau Plaid Cymru wedi mynd i dafarn y Mount Stuart (Wetherspoons) a chyfarfod â rhai o staff Plaid Cymru (yn cynnwys staff cymorth y Senedd a staff y blaidd ganolog). Mae Canfyddiadau o Ffaith 5 a 6 yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelod yn nhafarn y Mount Stuart.

54. Cadarnhaodd nifer o dystion a gafodd eu cyfweld gan y Comisiynydd fod yr Aelod wedi meddwi yn Mount Stuart, er bod rhywfaint o amrywiad yn eu cyfrifon ynghylch pa mor feddw yr oedd yr Aelod yn ymddangos. Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau'r Aelod ynghylch yr anghysondebau yn y dystiolaeth a'r ffeithiau bod yr Achwynydd a thystion eraill hefyd yn yfed alcohol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod sylwadau'r Aelod ei hun ynghylch 'being hazy after the Wetherspoons', ynghyd â thystiolaeth y tystion eraill am ba mor feddw oedd yr Aelod yn ddigon i'r Pwyllgor dderbyn Canfyddiad o Ffaith 5.

55. Gan droi at Ganfyddiad o Ffaith 6, mae'r Aelod yn ei gyfweiliad cychwynnol â'r Comisiynydd yn cyfaddef iddo wneud sylwadau difenwol am gyd-Aelod o'r Senedd. Fodd bynnag, mae'n gwadu'r canfyddiad o ffaith hwn i'r graddau canlynol:

*"There is no evidence that any adjoining table heard any of the conversation, which was in Welsh and not comprehensible to the likely customers at this public house."*⁸

56. Fodd bynnag, o ystyried bod nifer o dystion yn cadarnhau bod yr Aelod wedi gwneud y sylwadau hyn, a chan nad yw'r Aelod yn gwadu gwneud y sylwadau hyn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu derbyn yr agwedd hon ar y Canfyddiad o Ffaith. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi, yn ei Adroddiad sy'n ymdrin â sylwadau'r Aelod ar y Canfyddiadau drafft, fod y Comisiynydd yn datgan ei fod yn derbyn nad oes tystiolaeth uniongyrchol bod yr hyn a ddywedodd yr Aelod mewn gwirionedd wedi'i glywed gan y rhai wrth y byrddau eraill er i'r Aelod dderbyn ei fod yn siarad â llais uchel. Mae'r Comisiynydd hefyd yn datgan bod y sylw wedi'i glywed gan yr Achwynydd a oedd wrth yr un bwrdd â'r Aelod, ond nid mewn sgwrs ag ef.

57. Mae'r Pwyllgor yn derbyn ei bod yn debygol bod y sylwadau wedi'u cyfyngu i gylch cyfyngedig. O ran y sylwadau eu hunain, ystyrir y rhai hyn ymhellach ym mhennod pump gan eu bod yn codi materion yn ymwneud â rhyddid i lefaru a mynegiant.

Canfyddiadau o ffaith 7 a 12

58. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oedd y canfyddiadau hyn yn rhan o'r gŵyn wreiddiol, ac mae wedi nodi ym mharagraffau 72-78 isod ei ddull o ymdrin â'r rhain a chanfyddiadau eraill o'r fath.

⁸ Sylwadau'r Aelod i'r Comisiynydd ar Ganfyddiad o Ffaith

59. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd ynghylch ymddygiad yr Aelod tuag at dyst A, y mae'r Aelod yn cyfaddef rhywfaint ohoni. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad oedd tyst A am wneud cwyn na darparu tystiolaeth yn wirfoddol yn y gŵyn hon a chafodd ei galw i roi tystiolaeth o dan bwerau statudol y Comisiynydd.⁹

60. Mae'r Aelod yn datgan yn ei sylwadau i'r Comisiynydd ynghylch Canfyddiad o Ffaith 7:

“Any touching of Witness A was not meant to be inappropriate¹⁰.”

61. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Cod yn datgan, wrth gymhwyso'r diffiniadau o ymddygiad nas dymunir ac aflonyddu, bod bwriad y person y gwneir cwyn amdano yn amherthnasol pe byddai person rhesymol a diduedd o'r farn y byddai'r ymddygiad yn dod o fewn un o'r diffiniadau gan roi sylw i gyd-destun yr ymddygiad y gwneir cwyn amdano.¹¹

62. Roedd yr Aelod yn gwadu galw tyst A yn “bitch” pan gafodd ei herio yn y tacsî.

63. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn gwneud unrhyw ganfyddiad mewn perthynas â thorri'r Cod ar gyfer y canfyddiadau hyn ond mae'n eu nodi fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig.

Canfyddiadau o ffaith 8, 9, 10, 11, 18, 22 a 23

64. Mae'r grŵp hwn o ganfyddiadau o ffaith yn ymdrin â phrif sylwedd y gŵyn wreiddiol ac maent yn ganolog i'n penderfyniad.

65. Pan gafodd ei chyfweld gan y Comisiynydd, darparodd yr Achwynydd nodyn i'r Comisiynydd, wedi'i ysgrifennu â llaw yn Gymraeg. Dywedodd yr Achwynydd iddo gael ei ysgrifennu gartref ar fore 1 Gorffennaf 2021 ac mae'n nodi'r hyn y mae'r Achwynydd yn ei gofio o'r digwyddiadau. Mae'r nodyn yn nodi bod yr Aelod wedi galw'r Achwynydd yn 'bitch', wedi cydio yn yr Achwynydd, wedi mynnu mynd i mewn i'r tacsî er i'r Achwynydd awgrymu i'r Aelod fynd gyda'r lleill yn y grŵp, ac yn y tacsî wedi dal rhan uchaf coes yr Achwynydd a'i gwasgu'n galed.

66. Mae'r Aelod yn cyflwyno, wrth gofio'n ôl am y digwyddiadau yn ddiweddarch, fod amrywiadau yng nghofnod yr Achwynydd sy'n gwneud y dystiolaeth yn

⁹ Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, adran 11

¹⁰ Sylwadau'r Aelod ar Ganfyddiad o Ffaith, paragraff 13

¹¹ Paragraff 11, Cod Ymddygiad

amheus a bod amrywiadau gyda thystion eraill hefyd. Ystyriodd y Pwyllgor yr amrywiadau hyn gan gynnwys disgrifiadau gwahanol o'r digwyddiad yn y tacsî.

67. Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r cyngor nad yw anghysondebau mewn achosion o'r fath o reidrwydd yn awgrymu nad yw materion yn wir, ond yn hytrach gallant adlewyrchu gwahaniaethau wrth gofio wrth i amser fynd heibio a rhwng pobl.

68. Mae adroddiad y Comisiynydd yn nodi: "Witness A deponed that the Member 'pushed his way into the taxi,' that she had seen him grope the Complainant and that when she called him out for doing so he had called her a 'bitch'."¹² Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oedd Tyst A yn dyst gwirfoddol yn y gŵyn hon ar y mater hwn a chafodd ei galw gan y Comisiynydd i roi tystiolaeth.

69. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried cwestiynau ysgrifenedig y Comisiynydd i'r gyrrwr tacsî. Nid oedd y gyrrwr yn gallu cofio digwyddiadau'r noson, a nododd y Comisiynydd nad oedd hynny'n nodedig o ystyried y mathau o ymddygiad y gallai gyrrwyr tacsîs eu gweld yn seddi cefn tacsîs.¹³ Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y diffyg cofio yn arwyddocaol o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio rhwng y digwyddiad a'r Comisiynydd yn cyfweld â'r gyrrwr.

70. Dywedodd yr Aelod nad yw'n defnyddio'r gair 'bitch' ac na chlywodd yr un o'r tystion eraill yn y cyffiniau ef yn galw'r Achwynydd yn 'bitch'. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi tystiolaeth tyst A fod yr Aelod hefyd wedi ei galw hi'n 'bitch' am herio ei ymddygiad yn y tacsî.

71. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gwahaniaethau yn y cofnodion a roddwyd yn y dystiolaeth ond roedd o'r farn eu bod o fewn paramedrau'r amrywiad a ddisgwylir. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth mewn perthynas â'r canfyddiadau hyn yn ddigon cryf i'r Pwyllgor, ar sail tebygolrwydd, dderbyn canfyddiadau o ffaith 8, 9, 10, 11, 18, 22 a 23.

Canfyddiadau 3, 14, 15, a 16

72. Nid yw'r grŵp hwn o ganfyddiadau yn ymwneud â'r gŵyn wreiddiol a wnaed ym mis Awst 2022, ond maent yn faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad y Comisiynydd:

Canfyddiad 3 Gwnaeth sylwadau anwedus am [Aelodau o'r Senedd ac aelod o staff y Comisiwn ym mwyty Côte].

¹² Adroddiad y Comisiynydd

¹³ Adroddiad y Comisiynydd

Canfyddiad 14 Tra yr oedd yno gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd].

Canfyddiad 15. Gwnaeth sylwadau difenwol hefyd am [ddau Aelod o'r Senedd].

Canfyddiad 16 Gwnaeth nifer o sylwadau cwbl amhriodol i Dyst A [sylwadau wedi'u dileu]

73. Daeth sylwadau gan yr Aelod i law'r Pwyllgor ynghylch pwerau'r Comisiynydd i ddod o hyd i achosion ychwanegol o dorri'r Cod ac nad oedd yr Aelod o'r farn iddo gael datganiad prydlon a chlr o'r union faterion ychwanegol a oedd yn cael eu hystyried gan y Comisiynydd.

74. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiynydd wedi dibynnu ar gyngor cyfreithiol a gafodd yn ystod y bumed Senedd sy'n nodi'r amgylchiadau lle gallai'r Comisiynydd fynd ar drywydd materion y tu allan i'r gŵyn wreiddiol, pe baent yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Roedd cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r gŵyn hon yn nodi:

"The Commissioner was bound in his investigative process to consider all evidence relevant to the Member's behaviour during the relevant time period as the foundation for making his "findings" on the matters which are subject of the complaint. It is not evidence of "bad character" but instead is evidence of the surrounding circumstances during the relevant time period. In considering whether the Member behaved as alleged in the complaint, the circumstances at or around the time are relevant to whether or not the Member behaved as alleged. It is unrealistic to expect the Commissioner to make his findings in a vacuum."

75. Nododd y Pwyllgor, gan fod y canfyddiadau pellach hyn wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, na fu'n bosib eu cyflwyno i'r Aelod o'r cychwyn. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod y rhain wedi'u rhoi i'r Aelod wedi hynny mewn amrywiol ffurfiau, rhai'n gliriach nag eraill, drwy gydol yr ymchwiliad. Yn hyn o beth, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyngor yr oedd y Comisiynydd yn dibynnu arno yn amodol ar roi gwybod i'r Aelod am faterion o'r fath a'r cyfle i gynnig ei ymateb.

76. O ystyried amgylchiadau'r achos presennol, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Comisiynydd fod wedi ei gwneud yn glir i'r Aelod yn ysgrifenedig, cyn diwedd yr ymchwiliad a chyn cyflwyno'r canfyddiadau o ffaith drafft er mwyn rhoi sylwadau

arnynt, am y materion pellach hynny a oedd wedi dod i'r amlwg ac yr oedd yn ystyried gwneud canfyddiadau pellach yn eu cylch ac, felly, yn mynegi barn ynghylch achosion o dorri'r Cod.

77. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd ddatganiadau yng nghyfweliad tyst A nad oedd am wneud cwyn a bod y Comisiynydd wedi galw arni i wneud hynny gan ddefnyddio ei bwerau statudol.

78. Yn sgil y pwyntiau hyn, penderfynodd y Pwyllgor beidio ag ystyried a oedd y canfyddiadau o ffaith hyn yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor y canfyddiadau hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig perthnasol yn ymwneud â'r gŵyn wreiddiol.

5. Materion Gweithdrefnol a Chyflwyniadau

Tegwch gweithdrefnol

79. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig cyntaf i'r Pwyllgor, nododd yr Aelod ei fod wedi tynnu sylw at nifer o bryderon ynghylch dull gweithredu'r Comisiynydd drwy gydol yr ymchwiliad, a dywedodd y canlynol am ymchwiliad y Comisiynydd:

“His investigation has not correctly applied the procedure, the principles of natural justice, human rights or good practice followed by other legislatures such as Westminster.”

80. Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi ystyriaeth y Pwyllgor o gyflwyniadau'r Aelod ar faterion gweithdrefnol, gan gynnwys cyflwyniadau a wnaed ar ei ran gan gwrsler.

Ystyriaethau o ran Deddf Hawliau Dynol

81. Mae'r Senedd ei hun a'r Comisiynydd wedi'u rhwymo gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i cymhwysir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Daeth cyflwyniadau i law'r Pwyllgor ar ran yr Aelod bod y gŵyn yn ymwneud ag Erthygl 6 (hawl i wrandawriad teg), Erthygl 8 (parch at fywyd teuluol) ac Erthygl 10 (rhyddid mynegiant). Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod yr erthyglau hyn yn berthnasol wrth ystyried y gŵyn hon.

82. Ystyriwyd bod y gweithdrefnau a fabwysiedir gan y Senedd a deddfwrfeydd eraill wrth reoli ymddygiad Aelodau, lle mae'n nodweddiadol gweld canfyddwr ffeithiau annibynnol yn dilyn dull ymchwiliol wrth ymchwilio i gŵyn lle nad ef fydd yn gwneud y penderfyniad, a lle caiff yr adroddiad o'r penderfyniad ei gyhoeddi a'r penderfyniad terfynol ei wneud yn gyhoeddus gyda chyfle i'r Aelod gael ei glywed, yn cydymffurfio ag Erthygl 6. Fodd bynnag, gwnaeth yr Aelod hefyd gyflwyniadau helaeth ei fod wedi ei amddifadu o'r hawl i wrandawriad teg gan ragfarn y Comisiynydd tuag at yr Aelod ac mae'r Pwyllgor yn nodi ei ystyriaeth o'r cyflwyniadau hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

83. Mewn perthynas â'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8, cyflwynwyd y canlynol: *“the events under consideration did not take place within the Senedd or its various offices, or in a work setting, or in the course of the Member's work at the Senedd”*. Ar ôl tynnu sylw at ddiffiniad eang o hawliau preifat a fabwysiedir gan Lys Hawliau Dynol Ewrop,¹⁴ nodwyd bod rhaid i hyn estyn

¹⁴ Gan gyfeirio at achos *Botta v. yr Eidal* 26 EHRR 241

i'r hawl i fod yn *“boisterous, argumentative, or rowdy”*. Cyfeiriwyd hefyd at achos domestig *Beckwith*,¹⁵ a oedd yn ymwneud â honiadau o gamymddwyn proffesiynol yn erbyn cyfreithiwr i gefnogi'r cynnig bod dyletswydd i weithredu'n onest wrth ymdrin ag eraill ond yn cael ei thorri o dan yr amod a ganlyn: *“only when conduct that is part of a person's private life realistically touches on his practice of the profession”*.

84. Nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y cyflwyniad hwn. Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn gymwys i Aelodau ar bob adeg. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau, megis ymddygiad cyfreithlon mewn lleoliad domestig cwbl breifat, lle mae'r hawl i barch at fywyd teuluol yn disodli cymhwysiad Cod Ymddygiad yr Aelodau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn achos o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod amgylchiadau'r noson dan sylw yn gysylltiedig yn agos â statws yr Aelod fel Aelod o'r Senedd. Bu mewn cinio i Aelodau o'r Senedd ac roedd y grŵp a wnaeth ymgynnull wedyn yn nhafarn y Mount Stuart yn dwyn ynghyd Aelodau a oedd wedi bod yn y cinio hwnnw a staff swyddfeydd plaid Plaid Cymru a staff y Senedd, a oedd wedi ymgasglu i gael pryd o fwyd yn yr Hub Box cyn i rai fynd ymlaen i'r Mount Stuart. Yna, aeth yr Aelod gyda thystion eraill, a phob un ohonynt o'r Senedd neu'n staff y blaid, i'r Boom Battle Bar. Nid yw'n berthnasol bod y digwyddiadau hyn wedi digwydd i ffwrdd o'r Senedd; ac nid yw'n berthnasol ychwaith nad oedd yr Achwynydd yn gweithio yn y Senedd, o ystyried y cysylltiadau agos rhwng staff swyddfa ganolog y blaid a staff y blaid yn y Senedd. I bob pwrpas roedd hwn yn “barti swyddfa”.

85. Oherwydd statws cyhoeddus a gwleidyddol Aelod, os yw ei ymddygiad yn disgyn islaw'r safonau ymddygiad y disgwylir ganddo, mae'n anochel y bydd yn adlewyrchu ar ei rôl fel gwleidydd ac ar aelodaeth y Senedd yn gyffredinol.

86. Mae Erthygl 10 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn ymwneud â rhyddid mynegiant. Mae'n nodi (fel sy'n berthnasol fan hyn):

“Everyone has the right to freedom of expression. This right shall include freedom to hold opinions and to receive and impart information and ideas without interference by public authority and regardless of frontiers[...].

The exercise of these freedoms, since it carries with it duties and responsibilities, may be subject to such formalities, conditions, restrictions or penalties as are prescribed by law and are necessary in a democratic society, in the interests of national

¹⁵ [2020] EWHC 3231 (Gweinyddol)

security, territorial integrity or public safety, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, for the protection of the reputation or rights of others[...]”.

87. Felly, mae Erthygl 10 yn hawl amodol ac felly dim ond drwy osod sancsiynau mewn perthynas â darpariaethau a ragnodir gan y gyfraith y gellir cyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant, megis y rhai sydd ar gael i'r Pwyllgor hwn eu hargymell o dan Reol Sefydlog 22.10, ar yr amod bod y cyfyngiadau'n angenrheidiol ac yn gymesur ac yn cydymffurfio â nod dilys.

88. O ystyried ein penderfyniad i beidio ag ystyried y materion ychwanegol sy'n codi yn ystod yr ymchwiliad, mater i ni o hyd yw ystyried cymhwyso Erthygl 10 i ganfyddiadau a ganlyn y Comisiynydd sydd yn rhan o'r gŵyn wreiddiol neu'n deillio ohoni:

Canfyddiad 6. Gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd] mewn llais a oedd yn ddigon uchel i'w glywed gan y rhai wrth fyrddau cyfagos. [Sylwadau wedi'u dileu]

Canfyddiad 8. Yn y stryd ger Wetherspoons, galwodd yr Aelod yr Achwynydd yn "bitch" ddwywaith.

89. O ran Canfyddiad 6, ystyriodd y Pwyllgor y gwarchodaeth ychwanegol a roddir i fynegiant gwleidyddol y mae'n rhaid ei ddehongli'n eang ac sy'n cwmpasu sylwadau am ba mor ddigonol neu annigonol y mae eraill yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Mae sylwadau sarhaus a fyddai fel arall yn annerbyniol y tu allan i'r cyd-destun gwleidyddol hefyd yn cael eu gwarchod.

90. Er bod y Pwyllgor yn nodi bod yr Aelod, yn ystod cyfweliad, wedi derbyn na ddylai fod wedi gwneud y sylwadau hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried a fyddai cyfyngiad, ar ffurf penderfyniad bod sylwadau o'r fath yn dwyn anfri ar y Senedd, yn gyfystyr ag ymyrraeth â rhyddid mynegiant yr Aelod. Cynghorwyd y Pwyllgor bod hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo daro cydbwysedd rhwng y nod cyfreithlon mewn cymdeithas ddemocrataidd o ddiogelu enw da'r Senedd neu ei Haelodau'n gyffredinol rhag cael eu dwyn i anfri a hawl yr Aelod i ryddid mynegiant yn gyffredinol a'i hawl ehangach i ryddid mynegiant gwleidyddol.

91. O'r dystiolaeth yn adroddiad y Comisiynydd, mae'r Pwyllgor yn derbyn bod sylwadau'r Aelod yn dod o fewn ffiniau rhyddid mynegiant gwleidyddol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y ffordd y gwnaed y sylwadau gan yr Aelod, tra bod yr Aelod mewn cyflwr o gynnwrf a meddwdod mewn man cyhoeddus, sef y

man eistedd y tu allan i dafarn y Mount Stuart, yn gyfystyr ag ymddygiad a ddaeth ag anfri ar y Senedd a'i Haelodau yn gyffredinol wrth dorri Rheol 3.

92. Mae hefyd yn ofynnol i'r Pwyllgor fod yn gytbwys yn ei farn ynghylch y sancsiwn sy'n deillio o unrhyw gyfyngiad ar arfer yr hawl i ryddid i lefaru. O'i gymryd ar ei ben ei hun ac yng ngoleuni cyfaddefiad yr Aelod a'i ymddiheuriad pan gafodd ei gyfweld, penderfyniad y Pwyllgor yw y byddai ymddygiad yr Aelod wrth wneud sylwadau a warchodir fel arall yn haeddu cerydd ar y mwyaf. Ym marn y Pwyllgor, byddai hwn fel arfer yn sancsiwn cymesur na fyddai'n cyfyngu ar yr Aelod ymhellach ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod y Canfyddiad hwn ar y pegwn llai eithafol i'r sbectrwm ymddygiad a all gyfiawnhau gosod cyfyngiad. Fodd bynnag, o ystyried penderfyniadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion eraill sydd ger ei bron, penderfynodd y Pwyllgor beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r Canfyddiad hwn, er efallai y bydd yr Aelod yn dymuno manteisio ar y cyfle i gynnig ymddiheuriad cyhoeddus i'r Aelod o'r Senedd dan sylw pan fydd y cyfle'n codi.

93. Mae Canfyddiad 8 yn gyfystyr, ym marn y Comisiynydd, ag ymosodiad llafar personol y byddai unrhyw berson rhesymol yn ei ystyried yn ddifriol ac yn eithafol tu hwnt ac felly mae'n torri Rheol 6 o God Ymddygiad yr Aelodau ac yn dod o dan diffiniad y Cod o aflonyddwch ac felly'n torri Rheol 4. Nid oedd y sylwadau, y mae'r Pwyllgor yn fodlon ar gymhwyso'r safon profi, yn gyfystyr â sylwadau neu sgwrs wleidyddol ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus ac felly nid oeddent yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth ychwanegol.

94. Mae darpariaethau Rheol 4 a Rheol 6 yn y cyd-destun hwn yn ymateb i angen cymdeithasol dybryd i ddiogelu trydydd partion rhag sylwadau sarhaus a niweidiol ac ystyrir bod cymhwyso cymhwyster yn Rheol 6, sy'n cyfyngu'r cyfyngiad i sefyllfaoedd y byddai person rhesymol yn ystyried eu bod yn hynod eithafol, yn gymesur â'r nod cyfreithlon hwn.

95. Mae penderfyniad y Pwyllgor bod y sylwadau hyn gan yr Aelod yn hynod eithafol ac yn torri Rheolau 4 a 6 ac hefyd wedi dwyn anfri ar y Senedd a'i Haelodau ac felly'n mynd yn groes i Reol 3 yn gyson ag Erthygl 10. Felly, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y tor-rheol o ran Canfyddiad 8 wrth bennu'r sancsiwn cyffredinol.

Rhagfarn

96. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau helaeth fod y Comisiynydd wedi bod yn rhagfarnllyd yn erbyn yr Aelod wrth iddo ystyried y gŵyn.

97. Fel y nodwyd eisoes, dywedwyd wrth y Pwyllgor na fydd gweithdrefn neu broses yn cael ei hystyried yn deg os ymdrinnir â hi gyda rhagfarn wirioneddol neu ragfarn ganfyddedig (hynny yw, ni aethpwyd ati â meddwl agored). Cyngorwyd y Pwyllgor ei bod yn anodd profi rhagfarn wirioneddol fel arfer. O ran rhagfarn ymddangosiadol, mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi uchod y cyngor bod y prawf a sefydlwyd gan y Llysoedd yn gofyn a fyddai'r amgylchiadau perthnasol – sef ymchwiliad y Comisiynydd yn yr achos hwn – yn gadael i arsylwr teg a gwybodus ddod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol fod y canfyddwr ffeithiau yn rhagfarnllyd. Rhaid i'r broses, felly, gael ei gweld i fod yn deg, ond hefyd fod yr arsylwr teg a gwybodus yn mabwysiadu agwedd gytbwys heb fod yn hunanfodlon nac yn rhy amheus.

98. Dywedodd cwnsler yr Aelod wrth y Pwyllgor yn y sesiwn sylwadau llafar:

“... a balanced consideration of this report must, we submit, drive a fair-minded observer to the view that this report and the subsequent material from the Commissioner display a worrying degree of hostility to the Member. No doubt in his own mind the Commissioner attempted to be impartial. It may be what he wrote he did unconsciously, but that cannot avoid the conclusion that it reveals a permeating hostility, perhaps not glaring, but nevertheless discernible.”

99. Mae'r Comisiynydd wedi gwadu'n gryf gyflwyniad yr Aelod ei fod yn rhagfarnllyd ac wedi ymdrin â'r ymchwiliad gyda thueddiad yn erbyn yr Aelod. Er enghraifft, yn ei gyflwyniad terfynol i'r Pwyllgor ar 26 Ionawr 2024, dywed y Comisiynydd:

“I re-iterate my denial of bias in favour of either the Member or the Complainant. As Commissioner my interest is to investigate a complaint: I have no interest in whether or not a complaint is upheld. I note that despite this very serious allegation the Member has never suggested any reason why I should be biased against him.”

100. Fodd bynnag, yn sgil y cyngor a gafwyd, nid yw'r ffaith bod y Comisiynydd wedi'i wadu'n ddigonol a bu'n ofynnol hefyd i'r Pwyllgor ystyried, ar sail y ffeithiau ynghylch yr ymchwiliad i'r gŵyn hon, a oes digon o ganfyddiad o ragfarn i'w gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor wrthod canfyddiadau'r Comisiynydd ar y sail honno.

- 101.** Ar 19 Hydref, cyflwynodd yr Aelod restr o 17 o bwyntiau i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys, ym marn yr Aelod, ragfarn awgrymedig yng nghyfweliadau'r Comisiynydd, 40 achos o ragfarn awgrymedig mewn gohebiaeth a 27 achos o ddarnau camarweiniol yn adroddiad y Comisiynydd a sylwadau a oedd yn awgrymu rhagfarn.
- 102.** Dychwelodd y Comisiynydd y rhestr gyda'i sylwadau manwl ar 3 Tachwedd. Mae rhestr yr Aelod a sylwadau'r Comisiynydd ar gael i'r Aelodau eu harchwilio ar gais i glerc y Pwyllgor.
- 103.** Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch graddau'r achosion yr honnwyd eu bod yn dangos rhagfarn tuag at yr Aelod ac mae'r Pwyllgor wedi eu hystyried yn ofalus, ynghyd ag ymatebion y Comisiynydd. Mewn nifer fach o achosion, derbyniodd y Comisiynydd wallau neu gywiriadau i bwyntiau a godwyd am yr ohebiaeth neu Adroddiad y Comisiynydd ei hun. Cyfeirir at y rhain isod.
- 104.** Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn bod y safbwyntiau a fynegwyd gan y Comisiynydd, mewn rhai enghreifftiau, er yn gyfiawn ar sail y dystiolaeth, wedi'u mynegi mewn termau mwy blodeuog na'r hyn oedd ei angen i gynorthwyo'r Pwyllgor. Nid oedd defnyddio termau fel "ridiculous", "absurd" ac "appalling" yn yr Adroddiad wedi helpu ei ystyriaethau. Fodd bynnag, nid yw hyn i ddweud eu bod, ynddynt eu hunain, yn gyfystyr â chreu canfyddiad o ragfarn.
- 105.** Wrth ymateb i gyflwyniadau'r Aelod am ragfarn, derbyniodd y Comisiynydd ei fod ar fai mewn perthynas â dau bwynt yr oedd y Pwyllgor yn teimlo eu bod yn berthnasol.
- 106.** Roedd y cyntaf yn ymwneud â thystiolaeth Tyst A am y trefniadau eistedd yn y tacsî. Mae'r Adroddiad yn nodi bod y tyst wedi cadarnhau disgrifiad yr Achwynydd o'r trefniadau.¹ Derbyniodd y Comisiynydd y camgymeriad ac ymddiheurodd. O ganlyniad i hyn ac yn dilyn y sesiwn sylwadau llafar, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliadau pellach ynghylch y pwynt hwn ac ynghylch y tacsî. Cafodd yr Achwynydd a Thyst A eu cyfweld unwaith eto, a gofynnwyd cwestiynau i'r gyrrwr tacsî. Mae'r Pwyllgor yn gresynu at y ffaith na chafodd y pwynt pwysig hwn ei gadarnhau yn ystod y cyfweliadau cychwynol â'r tystion hyn. Llwyddwyd i greu darlun llawnach yn sgil yr ymchwiliadau pellach, a theimlai'r Pwyllgor fod hyn wedi rhoi'r eglurhad a oedd ei angen, ond ni ddatgelwyd unrhyw beth a arweiniodd at y Pwyllgor yn adolygu ei benderfyniad i dderbyn y canfyddiadau o ffaith perthnasol am yr hyn a ddigwyddodd yn y tacsî.
- 107.** Yn ail, tynnodd yr Aelod sylw at y ffaith bod yr Adroddiad yn nodi'r canlynol: *"Witness A said she saw the squeezing [of the complainant's thigh] and the*

moving away...” Nododd yr Aelod na ddywedodd Tyst A hyn. Cytunodd y Comisiynydd:

“Accepted that Witness A did not say that. Her evidence of the Complainant’s reaction to being groped by the Member was “she was alarmed, erm, I believe it was very clear that that’s not what she wanted. I knew it made her feel really uncomfortable, so I called the behaviour out.””

108. Roedd y Pwyllgor o’r farn bod hwn yn gamgymeriad anffodus wrth ddrafftio’r Adroddiad. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor y trawsgrifiad ac nid oedd o’r farn bod y camgymeriad yn ddigon perthnasol i effeithio ar ei allu i dderbyn y canfyddiadau o ffaith perthnasol.

109. Yn unol â’r cyngor a gafwyd, gwnaeth y Pwyllgor roi ei hun yn sefyllfa’r arsylwr teg a gwybodus gan geisio mabwysiadu dull gweithredu cytbwys o ran cyflwyniadau’r Aelod. Ar y sail hon ac o edrych ar y trafodion yn eu cyfanrwydd, daeth y Pwyllgor i’r casgliad nad oedd posibilrwydd gwirioneddol fod y Comisiynydd yn rhagfarnllyd yn ei ddull gweithredu mewn perthynas â’r materion hyn.

Cyflwyniadau pellach ar ragfarn

110. Yn dilyn y sesiwn sylwadau llafar ar 23 Hydref, gwnaeth yr Aelod a’i gwmsler gyflwyniad ysgrifenedig pellach ar 6 Tachwedd, yn ymateb i sylwadau’r Comisiynydd i’r Pwyllgor dyddiedig 18 Hydref. Roedd y cyflwyniad yn rhestru’r rhesymau pam yr oedd yr Aelod o’r farn bod ymddygiad y Comisiynydd yn codi posibilrwydd gwirioneddol o ragfarn yn ychwanegol at y pwyntiau a wnaed eisoes yn y rhestrau ac a ddisgrifiwyd ac a ystyriwyd eisoes uchod. Gellir crynhoi’r cyflwyniadau sy’n weddill fel a ganlyn:

- Trafodaethau’r Comisiynydd gyda’r Achwynydd i egluro’r broses a’r newid sydd ar ddod i’r weithdrefn: *“depriving me of a right of appeal”* a hysbysu’r Achwynydd pryd y gallai gyflwyno ei chŵyn. Ni wnaethpwyd cynnig tebyg i egluro’r broses i’r Aelod.
- Drafftio datganiad tyst yr Achwynydd yn hytrach na dibynnu ar drawsgrifiad y cyfweiliad mewn cyferbyniad â chymryd tystiolaeth yr Aelod ar lw mewn cyfweiliad ffurfiol a chynnig cyfarfod â’r Achwynydd i drafod newidiadau i’r datganiad tyst.
- Naws cyfathrebu’r Comisiynydd â’r Achwynydd: *“Friendly on first name terms with pleasantries”* o gymharu â’r dull o ohebu â’r Aelod a’i holi a

ddisgrifiwyd fel dull “robust and formal”. Diffyg parch at Aelod o'r Senedd drwy ofyn am brawf cyn cytuno i ohirio cyfarfod.

- Darparu cymorth proffesiynol i'r Achwynydd a thystion a diystyru pryderon yr Aelod am ei iechyd meddwl ac iechyd meddwl ei deulu.
- Methiant i ddatgelu bod y Comisiynydd wedi cyfarfod â ffrind honedig yr Achwynydd yn ystod yr ymchwiliad.
- Dull y Comisiynydd o ddatgelu tystiolaeth a diystyru dadleuon o blaid datgelu'n llawnach yng ngoleuni'r Adolygiad o degwch a chyfiawnder naturiol o fewn system safonau Tŷ'r Cyffredin gan y Gwir Anrhydeddus Syr Ernest Ryder.¹⁶
- Y Comisiynydd yn gwrthod gofyn cwestiynau rhesymol i'r Achwynydd a thystion.
- Gwrthod ceisio tystiolaeth annibynnol gan Wasanaeth Eryl y Goron mewn perthynas â chwyn flaenorol gan yr Achwynydd.

111. Bu'r Pwyllgor yn ystyried pob un o'r cyflwyniadau hyn.

Trafodaethau gyda'r Achwynydd

112. Nododd y Pwyllgor mai un o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Mesur yw cynghori Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd am y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion ac ymchwilio iddynt.¹⁷

113. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod penderfynu ymwneud â phroses Safonau'r Senedd mewn achos mor sensitif â'r achos hwn braidd yn frawychus i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cwyn. O'r dystiolaeth o'r ohebiaeth a ddarparwyd i ni a'r dystiolaeth arall, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Comisiynydd wedi ymddwyn yn briodol tuag at yr Achwynydd wrth ei chynghori o'r broses dan sylw pan gysylltodd ag ef gyntaf ac wedyn wrth fabwysiadu naws na fyddai'n ei dychryn neu'n “off putting” yn ei eiriau ef. Roedd gwneud hynny o fewn disgrisiwn y Comisiynydd wrth gynnal ei ymchwiliadau. Ym marn y Pwyllgor, ni fyddai mabwysiadu dull sy'n galluogi Achwynydd i deimlo'n gysurus yn gwneud cwyn, yn enwedig pan fo'r dystiolaeth yn dangos bod y profiad o wneud hynny'n peri trallod, fel yn yr achos hwn, yn gwneud i arsylwr teg a gwybodus ddod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol o ragfarn.

¹⁶ Adolygiad o degwch a chyfiawnder naturiol yn system safonau Tŷ'r Cyffredin – Pwyllgor Safonau (parliament.uk) (Saesneg yn unig)

¹⁷Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, adran 6(1)(2)

114. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn bod y Comisiynydd wedi gweithredu'n briodol ac yn unol â'i swyddogaeth statudol wrth hysbysu'r Achwynydd am y newid yn y weithdrefn a'r terfyn amser ar gyfer gwneud cwyn. Roedd y rheolau blaenorol yn ei gwneud yn ofynnol i gŵyn gael ei gwneud o fewn 12 mis i'r mater y gwnaed y gŵyn amdano. Digwyddodd y digwyddiadau sy'n destun y gŵyn ar noson 30 Mehefin - 1 Gorffennaf 2021. Nododd y Pwyllgor i'r tacsu gasglu am 00:12 ar 1 Gorffennaf 2021. Pan siaradodd yr Achwynydd â'r Comisiynydd ar brynhawn 1 Gorffennaf 2022, roedd yr amser ar gyfer gwneud cwyn eisoes wedi mynd heibio a phe bai'r gŵyn wedi'i gwneud yn ysgrifenedig ar unwaith i'r Comisiynydd, byddai yntau wedi bod dan rwymedigaeth i'w gwrthod. Felly, ni fyddai'r cwestiwn a oedd yn ofynnol i'r Aelod ateb y gŵyn a'i fod wedi gallu troi at yr apêl flaenorol ar sail gweithdrefnol i gyfreithiwr annibynnol erioed wedi codi.¹⁸ Ar y llaw arall, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r Comisiynydd wedi bod yn destun beirniadaeth, a hynny'n gwbl briodol, ac na fyddai wedi bod yn cyflawni ei swyddogaethau, pe na bai wedi hysbysu'r Achwynydd fel y gwnaeth am y newid i'r weithdrefn flaenorol. Roedd y Pwyllgor yn arddel y farn hon gan fod y Weithdrefn newydd eisoes wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2022 a'i bod ar fin cael ei gosod gerbron y Senedd (digwyddodd hyn ar 6 Gorffennaf 2022).

115. Yn dilyn sawl cyflwyniad gan yr Aelod a'r cwmsler fod tystiolaeth o drafodaethau heb eu datgelu gyda'r Achwynydd cyn y sgwrs ffôn gyda'r Comisiynydd ar 1 Gorffennaf, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd am fanylion unrhyw gyswllt blaenorol, gan nodi bod nodyn presenoldeb y Comisiynydd yn cyfeirio at ei alwad gyda'r Achwynydd fel un a wnaed drwy drefniant. Daeth yr ateb a ganlyn i law'r Pwyllgor, ac fe'i rhannwyd â'r Aelod. Mae'n dangos nad oedd sail i'r cyflwyniad:

"The note of the telephone call on 1 July 2023 was drafted by me and saved at 16:58 that day. It has never been modified.

In relation to the contact with the Complainant referred to in paragraph 5 of my Report the facts are as follows -

1) At 8pm on Wednesday 29 June 2022 my office received an email in Welsh from the Complainant asking for someone to phone her;

¹⁸Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adolygiad o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd Fel rhan o'r adolygiad hwn, tynnwyd y drefn apelio o'r weithdrefn, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil a ddangosodd nad oedd y Senedd yn cydymffurfio ag arfer mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill yn hyn o beth.

2) *That email was read on the morning of 30 June. It was referred to a fluent Welsh speaking member of the Commission's staff, who had previously provided cover and support to my office, to make the call;*

3) *An email was sent to the Complainant informing her that the staff member would call her at around 9.30am on 1 July;*

4) *The Complainant responded asking that that the call be at 10am;*

5) *That call was made and it was agreed that I would call the Complainant at 3pm that afternoon;*

6) *The call was made at the agreed time."*

116. Gan droi at y wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd i'r Aelod o'r llythyr yn hysbysu'r Aelod o'r gŵyn ar 11 Hydref ymlaen, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr Aelod wedi cael digon o wybodaeth am natur y broses ymchwiliol, ac i'r broses hon gael ei dilyn gyda phob cwyn ac eithrio un (a fu'n aflwyddiannus) ers i'r Mesur ddod i rym. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod angen gwahaniaethu rhwng rhoi gwybodaeth am y Weithdrefn bresennol ac ymateb i sylwadau'r Aelod i'r Comisiynydd a oedd yn ceisio sicrhau newidiadau i'r weithdrefn a ddilynwyd gyda'r gŵyn hon yn unol â barn yr Aelod ar yr hyn y dylai'r weithdrefn fod.

117. Yn unol â hynny, nid yw'r Pwyllgor o'r farn y gellid ystyried bod y gwahanol ffyrdd y darparwyd gwybodaeth i'r Achwynydd ac i'r Aelod yn golygu y byddai arsylwr teg a gwybodus yn dod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol o ragfarn.

Datganiad yr Achwynydd

118. Bu'r Pwyllgor yn ystyried pwyntiau ynghylch drafftio datganiad tyst yr Achwynydd a datgelu trawsgrifiad o gyfweliad cyntaf y Comisiynydd â'r Achwynydd. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylw'r Comisiynydd mai'r dulliau arferol o gymryd tystiolaeth mewn cwynion sy'n ymwneud â Safonau lle cynhelir cyfweliadau gwirfoddol (yn wahanol i'r arfer a ddefnyddir hefyd, o gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig) yw i nodyn neu ddatganiad o dystiolaeth y cytunwyd arno gael ei baratoi gan y Comisiynydd ar ôl y cyfweliad a'i gyflwyno i'r tyst er mwyn iddo allu ei gywiro a chytuno arno. Nid yw datganiadau o'r fath yn dilyn fformat cwestiwn ac ateb fel mewn trawsgrifiad, er y bydd y wybodaeth wedi'i chasglu drwy broses lle gofynnir cwestiynau. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd wedi mabwysiadu'r dull hwn wrth agor ei ymchwiliad i'r gŵyn hon.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn dwyn i gof ateb y Comisiynydd i gwestiwn y Pwyllgor am y dull a fabwysiadwyd ar gyfer holi tystion a drafodir ymhellach ym mharagraffau 128 i 133 isod. Mae'r gwaith o drawsgrifio tystiolaeth wedi'i neilltuo ar gyfer achlysuron pan holir tyst ar lw.

119. Yn ei Adroddiad, mae'r Comisiynydd yn nodi ym mharagraff 8 fanylion ei gyfweliad cyntaf gyda'r Achwynydd sy'n datgan:

"With her permission an audio recording of the meeting was made which she was assured would be used solely for the purpose of assisting in the preparation of the draft statement."

120. Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Aelod am weld y trawsgrifiad a gofynnodd i'r Pwyllgor sicrhau bod y trawsgrifiad yn cael ei ddatgelu.

121. Yn dilyn sesiwn sylwadau llafar yr Aelod, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd ganfod a oedd yr Achwynydd yn fodlon caniatáu datgelu'r trawsgrifiad. Gwrthododd yr Achwynydd i gychwyn, oherwydd bod y trawsgrifiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, cytunodd yr Achwynydd wedyn i awgrym gan yr Aelod i fersiwn gyda rhannau wedi'u dileu gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor a'r ysgrifenyddiaeth ac i'r Aelod. Cafodd y rhannau hyn a ddilëwyd eu hadolygu'n annibynnol gan aelod o Wasanaethau Cyfreithiol y Senedd er mwyn sicrhau nad oedd y golygiadau'n gysylltiedig â'r gŵyn. Felly, dim ond y fersiwn sydd wedi'i golygu y mae'r Aelod a'i gynghorwr ac aelodau'r Pwyllgor a'r ysgrifenyddiaeth wedi'i gweld.

122. Pan ddatgelwyd y trawsgrifiad, nodwyd bod y Comisiynydd wedi gwrth-ddweud ei hun yn ystod y cyfweliad. Ar y dechrau, dywedodd wrth yr Achwynydd mai diben y recordiad sain oedd er mwyn galluogi'r Comisiynydd i wirio manylion heb orfod ysgrifennu'n ddi-baid yn ystod y cyfarfod neu yn ei eiriau ef: "it means I can just *check back rather than scribbling away furiously the whole time*" ac y byddai'n dileu'r recordiad ar ôl cytuno ar ddatganiad yr Achwynydd. Fodd bynnag, ychydig yn ddiweddarach dywedodd hefyd: "*At some stage in the process, I have to provide Mr Owen with a copy of your complaint, and indeed with a transcript of this interview.*" Yn dilyn hyn, dywedodd yr Aelod fod y datgeliad hwn yn mynd yn groes i sicrwydd blaenorol y Comisiynydd fod y broses o lunio datganiad yr Achwynydd wedi bod yn deg ac yn dryloyw. Mewn ymateb i sylwadau'r Aelod bod y Comisiynydd wedi camarwain y Pwyllgor, rhoddodd y Comisiynydd yr esboniad a ganlyn, sy'n nodi'n llawn:

“Misleading the Committee

I refute any suggestion that I deliberately misled the Committee in relation to disclosure of the Complainant’s witness statement. I accept, of course, that I told the Complainant that her statement would be disclosed to the Member and that she raised no objection (page 3). But at the start of the interview, I had told her that the interview was being recorded solely to avoid having to take notes and that the recording would be deleted when her witness statement had been agreed. (page1). The two are not consistent and I have no idea why I made the second statement. It is possible it was a slip of the tongue and that what I meant to say was “At some stage in the process, I have to provide Mr Owen with a copy of your complaint and indeed with a copy of your statement.” That would have made more sense in the circumstances and would have been consistent with what I had told her about deletion of the recording.

Whatever the reason, it was my clear understanding following that meeting that I had undertaken that the recording would be deleted and would not be shared with anyone.

Because of the limited use that was to be made of the recording no transcript was prepared following the meeting. It was not until I began drafting my Report that I became aware that the audio recording had not been deleted. I was minded to include a transcript of it in my Report but was reminded that I had told the Complainant that the recording would be deleted and that she might have issues if it was disclosed. Despite that, it was at that time my view was that I should share the recording with the Member and the Complainant. On 4 April to facilitate such sharing, I asked that the recording be professionally transcribed. The transcription was received on 11 April.

That day it was suggested to me that it might be possible to remove the passages of concern to the Complainant before sharing it. I did not consider that a proper course of action.

The following day [my official] phoned the Complainant and told her of my intention to disclose the transcript. The

Complainant made clear her strong objection to its disclosure. She told him that she did not recall being told at the meeting that the transcript would be provided to the Member. Later that day she emailed [my official] asking him to inform me that "I would strongly rather you did not share my interview transcript with the member."

In view of the undertaking that I considered that I had given at the meeting in August 2022 and the Complainant's strong views I felt unable to disclose the transcript.

I reject the Member's assertion in paragraph 9 that I "was trying to protect himself by not disclosing the interview." Had I wanted to keep the recording secret I could simply, but wholly improperly, never have mentioned that a recording of the meeting had been made."

123. Yn ogystal, wrth ystyried y pwynt hwn, nododd y Pwyllgor hefyd fod y Comisiynydd yn ei lythyr at yr Aelod dyddiedig 21 Rhagfyr 2022 wedi nodi:

"The Complainant's statement was drafted by me using the transcript of her interview which took place in my office in the Pierhead Building on 30 August 2022. I will consider providing you with a copy of the transcript in due course."

124. Pan nodwyd y cyfeiriad at drawsgrifiad, ymatebodd y Comisiynydd i'r Pwyllgor ar ffurf llythyr ar 15 Chwefror:

"The short answer to your query is that the two cannot be reconciled because what I wrote in my letter of 21 December 2022 was incorrect - the reference should have been to the recording not the transcript. I apologise for the error and any confusion caused."

125. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y sefyllfa fel y'i datgelir erbyn hyn yn anfoddhaol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y Comisiynydd wedi gweithredu'n ddidwyll wrth ddatgan yn yr Adroddiad fod recordiad sain wedi'i wneud. Fodd bynnag, ym marn y Pwyllgor, pan sylweddolwyd bod y recordiad sain ar gael o hyn byddai wedi bod yn well pe bai'r Comisiynydd wedi ceisio cytuno, gyda'r Achwynydd a'r Aelod, ar ddull tebyg i'r un a fabwysiadwyd yn y pen draw gan y Pwyllgor yn dilyn awgrym yr Aelod, sef datgelu trawsgrifiad gyda deunydd amherthnasol wedi'i ddileu a'i adolygu'n annibynnol. Ni ddylai'r Pwyllgor fod wedi cael ei roi mewn sefyllfa lle bu'n rhaid iddo ddatrys y mater hwn ei hun.

126. Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai arsylwr teg a gwybodus yn dod i'r casgliad bod y sefyllfa yn un a gododd yn sgil esgeulustod y Comisiynydd, yn hytrach na rhagfarn.

127. Ar ôl cael y cyfle i adolygu'r trawsgrifiad a chael sylwadau arno gan yr Aelod, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r trawsgrifiad a ddatgelwyd yn cynnwys deunydd a fyddai'n golygu bod y Pwyllgor yn gwrthod canfyddiadau'r Comisiynydd ar sail datganiad yr Achwynydd neu ei benderfyniadau ar achosion o dorri'r Cod.

Naws gohebiaeth a chwestiynau'r Comisiynydd

128. Roedd y cwestiynau ysgrifenedig a ofynnwyd gan y Pwyllgor i'r Comisiynydd, ar ôl i'w Adroddiad ef a chyflwyniadau cychwynnol yr Aelod ddod i law, yn cynnwys cwestiwn ynghylch pa un a oedd y Comisiynydd wedi mabwysiadu dull gwahanol o holi'r Aelod o gymharu â'r tystion eraill, yn enwedig yr Achwynydd. Mewn ymateb, ar 1 Medi 2023, dywedodd y Comisiynydd:

"My aim when interviewing witnesses including the Complainant and the Member was to get to the truth of what happened. To that end, I considered it appropriate to vary my style of questioning depending on the witness.

My first interview of the Complainant was aimed primarily at satisfying myself that she did not wish to report the matter to the police and to obtaining further information about her reasons for not submitting her complaint earlier. I also took the opportunity of obtaining from her further information in relation to the allegations she had set out in her complaint to enable me to prepare a draft statement for her consideration. If her allegations she made when she first contacted me were true, she had been the subject of grossly improper conduct by the Member and recounting it could plainly be distressing and embarrassing for her. I considered whether I should take her evidence on oath in view of the serious nature of her allegations. I decided against so doing. The power to take evidence on oath is dependent on service by registered post on the witness of a formal notice requiring attendance to give evidence. I was concerned that service of such a notice on the Complainant and the formality of such an interview might result in her withdrawing from the complaints process. I considered that a soft approach was the most likely way to obtain her evidence.

At her second interview, the Complainant was examined on oath and confirmed the accuracy of what she had said at her first interview. By that time, I was satisfied that the risk of her withdrawing from the process had passed. At that interview the Member's account of what had happened that night and his representations, [redacted: about the complainant], were put to her. Her responses were put to the Member during his second interview.

My style of interview of other witnesses depended on who they were and the evidence I believed they might be able to provide. For example, my interview of [the then Chief Executive of Plaid Cymru] about the inordinate delay in providing the Complainant with the promised letter of apology could properly be regarded as robust. He was questioned at some length on his email exchanges with the Member, about the wording of the apology letter and why it was watered down. Witness A had to be required to attend to give evidence and the possible consequences of failing to give honest answers to my questions was made clear to her. It has not been normal practice to interview witnesses on oath but after the Member asserted, incorrectly in my view, that equal weight could not be given to sworn and unsworn evidence I interviewed all further witness on oath.

My interviews of the Member were robust but in no way improper. The Member is a person of undoubted intellect, experienced in investigative questioning techniques. He was accompanied at both his interviews by Malcolm Bishop KC. Neither of them took any objection to the manner of questioning or conduct of either interview. Prior to my first interview of the Member, I had obtained evidence from other witnesses as well as documentary evidence. It was my duty to put that evidence to the Member and afford him the opportunity to respond to it. At the end of each of his interviews he was asked if he wished to change any of the answers he had given and was afforded the opportunity to say anything else he considered relevant to my investigation. At the end of his first interview, he made a lengthy statement. By the time of his second interview, I had obtained further evidence which it was my duty to put to him to give him an opportunity to respond."

129. Ni dderbyniodd yr Aelod resymau'r Comisiynydd dros y dull a fabwysiadwyd ganddo a chyfeiriodd at ei drallod meddwl yn sgil y broses. Nododd y Pwyllgor fod y trawsgrifiad o gyfweliad cyntaf yr Aelod yn cofnodi ei fod mewn cryn drallod wrth ddweud wrth y Comisiynydd am effaith dod yn Aelod a materion personol cysylltiedig, ond gwrthododd gynnig i atal y cyfweliad dros dro. Trafodir ymhellach y cymorth a oedd ar gael i'r Aelod isod.

130. Nid yw'r Pwyllgor o dan unrhyw gamargraff ynghylch pa mor drallodus ac anodd fu'r achos hwn i'r Aelod a'r Achwynydd a'u teuluoedd. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag esboniad y Comisiynydd o'i ddull gweithredu ac, ym marn y Pwyllgor, mae'n dod o fewn terfynau derbyniol o ran tegwch. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai mabwysiadu dulliau gwahanol, ar ôl cael esboniad gan y Comisiynydd, yn arwain at ganfyddiad o ragfarn o safbwynt arsylwr teg a gwybodus.

131. Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod y cyflwyniad sy'n ymwneud â diffyg parch yn cyfeirio at y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad ffurfiol i'r Aelod fynychu ei gyfweliad cyntaf gan ofyn am dystiolaeth o apwyntiad er mwyn cytuno i ohirio'r cyfweliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Rheol 17 o God Ymddygiad yr Aelodau yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydweithredu bob amser â Chomisiynydd y Senedd wrth gynnal ymchwiliad. Mae gan y Pwyllgor gydymdeimlad sylweddol ag amgylchiadau teuluol anodd yr Aelod ddiwedd mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, a rhaid bod hynny wedi ychwanegu at straen anochel ymchwiliad y Comisiynydd. Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn bod gan y Comisiynydd achos cyfiawn dros dynnu sylw at y ffaith fod yr Aelod wedi cael amser i ysgrifennu llythyr hir a chymhleth at y Comisiynydd er nad oedd wedi dod o hyd i'r amser i gysylltu ag ef na'i swyddfa i drefnu cyfweliad. Ar ôl cyflwyno hysbysiad i'r Aelod, nid yw'r Pwyllgor yn beirniadu'r Comisiynydd am ofyn am gadarnhad dogfennol gan yr Aelod ynghylch pam nad oedd y dyddiad penodedig yn gyfleus.

132. Roedd yr Aelod yn anfodlon ar ddefnydd y Comisiynydd o'r ymadrodd "*How long is a piece of string*" mewn ymateb i gwestiwn gan y cwnsler am amserlen yr ymchwiliad ar ddiwedd cyfweliad cyntaf yr Aelod gan ei ddyfynnu fel enghraifft o'r gwahaniaeth yn y ffordd y cafodd ei drin. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd wedi defnyddio dywediad tebyg mewn ymateb i gwestiwn tebyg gan yr Achwynydd, sydd wedi'i gofnodi yn y trawsgrifiad a ddatgelwyd o gyfweliad cyntaf yr Achwynydd.¹⁹

¹⁹ Tudalen 3, llinell 1.

133. Yn unol â hynny, nid yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai dull y Comisiynydd o ymdrin â'r cyfathrebiadau hyn, o dan yr holl amgylchiadau, yn arwain at bosibilrwydd gwirioneddol o ragfarn ar ran arsylwr rhesymol a gwybodus.

Darparu Cymorth

134. Mae darparu cymorth i Achwynwyr yn dod o fewn cylch gorchwyl y Comisiynydd. Mae'r trefniadau mewn perthynas ag Aelodau yn wahanol. Yn ei lythyr yn hysbysu'r Aelod o'r gŵyn, darparodd y Comisiynydd linc i adnodd gwybodaeth sydd ar gael i Aelodau a staff ar fewnrwyd y Senedd. Mae hwn yn cyfarwyddo Aelodau sy'n destun cwyn i geisio cymorth drwy Wasanaethau Busnes i'r Aelodau Comisiwn y Senedd sy'n darparu ystod eang o gymorth ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol Aelodau gan gynnwys cyrsiau am wydnwch a llesiant, yn ogystal â chynnig hyfforddiant a mentora unigol lle bo'n briodol/dymunol.

135. Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw bodolaeth trefniadau gwahanol ar gyfer Aelodau ac achwynwyr yn arwain at unrhyw faterion yn ymwneud â rhagfarn.

Methiant i ddatgelu cyfarfod â ffrind honedig yr Achwynydd.

136. Codwyd y pwynt hwn gan yr Aelod i ddechrau yn ei gyflwyniad ysgrifenedig ar 4 Hydref ar sail erthygl gan y BBC ar 1 Hydref 2023. Darparodd y Comisiynydd yr ymateb a ganlyn y mae'r Pwyllgor yn ei dderbyn fel un a oedd yn ateb cyflwyniad yr Aelod ac sy'n dangos nad oedd unrhyw amhrifodoldeb ar ran y Comisiynydd yn gysylltiedig â'r mater:

"As I informed your Clerk shortly after the broadcast, the BBC report ... was inaccurate. The truth is that on 14 November 2022 [individual's name] contacted my office saying that he had evidence relevant to my investigation into the Member. I met with him on 17 November to hear what he had to say. He had no first-hand evidence that I considered could have any relevance to my investigation. [Matters raised by the individual not directly relevant to the complaint] It was not mentioned in the Report of my investigation or disclosed to the Member because it was of no possible relevance."

137. Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r pwynt hwn yn codi unrhyw faterion o ragfarn ganfyddedig.

Datgelu ac Adolygiad Ryder o degwch a chyfiawnder naturiol mewn safonau seneddol

138. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau helaeth ar degwch y trefniadau datgelu o dan y rheolau gweithdrefnol presennol.

139. Mae'r rheolau gweithdrefnol presennol yn deillio o argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau yn y Bumed Senedd a nododd y dylid cynnal adolygiad o'r rheolau gweithdrefnol ar ôl i'r Bumed Senedd fabwysiadu Cod Ymddygiad diwygiedig yr Aelodau. Yn dilyn etholiad y Chweched Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor hwn ymgyngoriad ar ddiwygio'r weithdrefn a mabwysiadwyd y rheolau presennol gan y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2022 ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf 2022. Maent yn gymwys i gwynion a ddaeth i law ar neu ar ôl 18 Gorffennaf 2022.

140. O dan y rheolau presennol, yr adeg y caiff y dystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd ei datgelu yw'r adeg y caiff yr Aelod a'r Achwynydd eu hysbysu am ganfyddiadau o ffaith drafft y Comisiynydd. Caiff y Comisiynydd ddatgelu dogfennau yn ystod yr ymchwiliad ac mae dogfennau ategol i'w hanfon at yr Aelod gyda'r gŵyn.

141. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd, wrth ystyried y gŵyn bresennol, wedi mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol drwy ddatgelu i'r Aelod ar ddechrau'r ymchwiliad ddatganiad yr Achwynydd yn ogystal â'r dogfennau yr oedd wedi'u cyflwyno i'r Comisiynydd. Er nad yw wedi'i ddatgan yn benodol yn y rheolau newydd, nododd y Pwyllgor hefyd mai arfer y Comisiynydd, er tegwch, wrth anfon y canfyddiadau o ffaith drafft at yr Aelod a'r Achwynydd yw datgelu'r dystiolaeth y dibynnir arni gan gynnwys datganiadau a thrawsgrifiadau, ac ar y pwynt hwnnw mae cyfle i'r Aelod a'r Achwynydd gyflwyno sylwadau i'r Comisiynydd, gan ddibynnu ar y ddogfennaeth lawn sydd o'u blaenau. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod dystiolaeth mewn perthynas â'r gŵyn hon wedi'i datgelu yn unol â'r rheolau a fabwysiadwyd yn ddiweddar iawn ar y pryd (ac yn wir wedi mynd y tu hwnt i'r rheolau hynny).

142. Ar 4 Mawrth 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin adolygiad o degwch a chyfiawnder naturiol yn system safonau Tŷ'r Cyffredin, a oedd yn cynnwys adolygiad ac argymhellion a gynhaliwyd gan y Gwir Anrhydeddus Syr Ernest Ryder. Awgrymodd yr adolygiad hwnnw y dylai arfer da ymchwiliol modern ddarparu ar gyfer datgelu'r holl dystiolaeth a ddarperir i'r Comisiynydd (wedi'i rhannu'n ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a deunyddiau nas defnyddiwyd) a nododd mai dyma oedd arfer presennol Comisiynydd Tŷ'r Cyffredin. Dywedodd yr Aelod y dylai'r Comisiynydd fod wedi mabwysiadu dull Tŷ'r Cyffredin, er gwaethaf

Gweithdrefn y Senedd ei hun a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Yn ei ateb i gwestiynau i'r Pwyllgor dyddiedig 1 Medi 2023, nododd y Comisiynydd y trefniadau cymharol presennol mewn deddfwrfeydd eraill (Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi a Chynulliad Gogledd Iwerddon²⁰) mewn perthynas â datgelu, fel a ganlyn:

"In none of them is it the normal practice to provide the Member with copy witness statements before being interviewed by the Commissioner. In the House of Lords, the statements are not normally provided to the Member even at the end of the investigation: only relevant extracts quoted in the Commissioner's report are made available.

In the House of Lords, all written material submitted by the Complainant or any witness, other than witness statements or transcripts and anything that is plainly irrelevant, are provided to the Member prior to interview by the Commissioner.

In the House of Commons, no distinction is made between used and unused material. Normally, the Member receives a copy of all material collected during the investigation, except administrative materials such as internal team emails or previous versions of statements or reports, at the same time as the Memorandum (equivalent to our report).

In the Northern Ireland Assembly, the Member is given a copy of the complaint and any supporting documents provided by the Complainant at an early stage but normally is given copies of witness statements and other documents only when sent a final draft of the Commissioner's report. Only documents which the Commissioner has relied upon in forming an opinion are provided. Material that was not relied upon i.e., unused material, is not normally provided."

143. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau'r Senedd ar gyfer datgelu yn y gŵyn hon yn debyg i'r trefniadau yn yr enghreifftiau a ddyfynnir. Yn ogystal, mae'r Aelod wedi cael caniatâd i wneud saith cyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, yn ogystal â

²⁰ Dywedodd y Comisiynydd nad oedd yn gallu cael gwybodaeth am y sefyllfa yn Senedd yr Alban, ond mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Alban yn wahanol o ran cael un Comisiynydd Safonau Moesegol gyda chylch gwaith ehangach i ymchwilio i gwynion am ymddygiad Aelodau o Senedd yr Alban, cynghorwyr awdurdodau lleol, ac aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus ac am lobïwyr.

sylwadau llafar hirfaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniadau ar gael tystiolaeth ychwanegol a deunydd a dderbyniwyd gan y Pwyllgor.

144. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod yr Aelod wedi cael copi o adroddiad y Comisiynydd a'r dogfennau y dibynnwyd arnynt, yn llawn, ar 12 Mai 2023 ac felly ei fod wedi cael digon o amser i'w ystyried a gwneud cyflwyniadau cyn y sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r Pwyllgor gwneud penderfyniadau hwn ar 23 Hydref. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw amheuaeth ychwaith y byddai'r Comisiynydd wedi rhoi rhagor o amser i'r Aelod wneud sylwadau ar y canfyddiadau drafft pe bai'r Aelod wedi gwneud cais o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Aelod, fodd bynnag, nad yw ymateb yn agos at derfyn amser yn destun pryder.

145. Mae'r Pwyllgor o'r farn, ar y cyfan, fod datgeliad teg a digonol wedi'i wneud i'r Aelod mewn modd a oedd yn gyson â threfniadau safonau deddfwrfeydd eraill. Yn unol â hynny, nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y cyflwyniad y byddai'r trefniadau datgelu yn arwain at ganfyddiad o ragfarn ar ran y Comisiynydd gan arsylwr teg ac annibynnol.

Gwrthod gofyn cwestiynau rhesymol i'r Achwynydd a thystion.

146. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig cyntaf i'r Pwyllgor, y cyfeiriwyd ato hefyd gan ei gwnsler drwy sylwadau llafar, dywedodd yr Aelod:

"When no cross examination of the evidence is allowed, or when it is impossible to produce a list of questions to witnesses as the Commissioner refuses to disclose the evidence, it is paramount that the questioning by the finder of fact is fair, thorough and measured. This has not happened in this investigation. On a number of occasions the Commissioner failed to ask basic and crucial questions. The Commissioner left many points unnecessarily ambiguous and chose for whatever reason not to pursue many matters raised by me. In addition, the Commissioner asked many leading questions putting words into the mouths of witnesses. Due to the obvious power imbalance between the Commissioner and the witnesses, there is a serious risk that this could well have influenced their evidence."

147. Dywedodd yr Aelod hefyd na ofynnodd y Comisiynydd gwestiynau i'r Achwynydd a oedd yn deillio o gyfweiliad yr Aelod pan awgrymodd yr Aelod na fyddai wedi bod yn bosibl yn ffisegol i'r Aelod gyffwrdd â'r Achwynydd yn y modd a ddisgrifiwyd, gan awgrymu y gallai bag llaw neu wregys diogelwch fod wedi rhwystro hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi yr holwyd yr Achwynydd yn yr ail gyfweiliad am awgrym arall gan yr Aelod, sef y gallai fod achos o gyffwrdd

anfwriadol wedi digwydd tra fod yr Aelod yn chwilio am ei ffôn symudol y dywedodd ei fod bob amser yn ei gadw yn ei boced chwith.

148. Mae'r Pwyllgor yn nodi, wrth ymchwilio i gŵyn, fod gan y Comisiynydd ddisgresiwn ac annibyniaeth eang, o fewn terfynau tegwch o ran y ffordd y mae tystion yn cael eu holi. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y Comisiynydd dros wrthod awgrymiadau'r Aelod ac mae'n ystyried bod gan y Comisiynydd hawl i ddod i'r farn na fyddai'r awgrymiadau'n symud yr ymchwiliad yn ei flaen ac felly na ddylid eu cyflwyno i'r Achwynydd. Pan fu amwysedd clir yn y trawsgrifiad neu wybodaeth ar goll yr oedd yn ymddangos i'r Pwyllgor ei bod yn berthnasol yn achos y trefniadau eistedd yn y tacsï a'r trefniadau casglu, manteisiodd y Pwyllgor ar y pŵer y darparwyd yn benodol ar ei gyfer yn y Weithdrefn i gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio ymhellach i hyn.

149. Mae'r mater sy'n ymwneud â chwestiynau arweiniol yn cael ei ystyried ar wahân isod. Fodd bynnag, fel arall, nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y cyflwyniad hwn yn codi materion o ran canfyddiad o ragfarn ar ran y Comisiynydd, o'i weld gan arsylwr rhesymol a gwybodus.

Mater yn y gorffennol yn ymwneud â'r Achwynydd

150. Dywedodd yr Aelod y dylai'r Comisiynydd fod wedi ceisio gwybodaeth am fater yn y gorffennol yn ymwneud â'r Achwynydd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach gan y Comisiynydd a nododd ei resymau yn ei ymateb ar 1 Medi 2023 i gwestiynau'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Comisiynydd wedi arddel dull rhesymol a chymesur a'i fod yn gyson â'r gofyniad o dan y Weithdrefn i gynnal ymchwiliad llawn a thrylwyr. Mae'r Pwyllgor wedi cadw manylion pellach yn ôl gan nad ydynt yn berthnasol i benderfyniad y Pwyllgor ar y gŵyn.

Cwestiynau arweiniol

151. Yng nghyflwyniadau'r Aelod inni ac yn y sylwadau llafar a wnaed ar ran yr Aelod gan ei gwnsler, beirniadwyd y Comisiynydd am ofyn cwestiynau arweiniol i dystion a chyflwynwyd rhestr yn nodi 30 o gwestiynau yr ystyriwyd eu bod yn gwestiynau arweiniol.

152. Yn ymateb y Comisiynydd i'r Pwyllgor, derbyniodd fod saith cwestiwn yn arweiniol ac yn amhriodol. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor hefyd:

"I do not accept that a number of the questions referenced were leading. A simple test of whether a question is leading would be "Does it introduce into evidence an important fact or suggests the answer to the witnesses", I would remind the

Committee that there are no rules of evidence in relation to investigations by the Commissioner and that leading questions are permissible so long as they are not unfair. I accept that the probative value of an answer to a leading question may, depending on the circumstances, be less than that to an open question."

153. Nododd y Pwyllgor nad yw'r Comisiynydd yn ddarostyngedig i reolau ffurfiol yn ymwneud â thystiolaeth cyn belled â bod y cwestiynu'n deg. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â dull y Comisiynydd, ac nid yw'n syndod y bydd cwestiynau arweiniol yn cael eu gofyn yn achlysurol iawn mewn cyfres faith o gyfweiliadau ymchwiliol. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai dyma'r achos fan hyn ac nid yw'n ystyried bod yr achosion unigol a dderbyniwyd gan y Comisiynydd fel rhai arweiniol wedi effeithio ar degwch cyffredinol y trafodion nac ar allu'r Pwyllgor i ddod i benderfyniad teg.

154. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rhoddodd y Pwyllgor sylw i benderfyniad Panel Arbenigol Annibynnol Cynllun Cwynion a Chwynion Annibynnol San Steffan (IGCS) a ddyfynnwyd gan yr Aelod mewn cysylltiad ag arwain tystion. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod gweithdrefn IGCS yn wahanol iawn i'r trefniadau o dan y Mesur ac felly ni chanfu'r Pwyllgor fod y penderfyniad o gymorth.²¹

Cwestiynau amhriodol

155. Yn ogystal â'r rhestr o sylwadau sy'n awgrymu rhagfarn a chwestiynau arweiniol a luniwyd gan yr Aelod ar 19 Hydref 2023, cyn y sesiwn sylwadau llafar, lluniodd hefyd restr yn nodi'r cwestiynau a oedd yn amhriodol ym marn yr Aelod. Ymatebodd y Comisiynydd drwy atgoffa'r Pwyllgor a'r Aelod mai mater i'r Comisiynydd, yn amodol ar y Weithdrefn, yw penderfynu pryd a sut i gynnal ymchwiliad ac adrodd ar ei ganlyniad o dan y Mesur.

156. Roedd y rhestr o gwestiynau yn nodi 19 cwestiwn a oedd yn amhriodol ym marn yr Aelod. Roedd y cwestiynau'n cyfeirio at nifer o gyfweiliadau ac yn ymwneud ag awgrymiadau a chyflwyniadau'r Aelod ynghylch cwyn flaenorol yr Achwynydd i'r heddlu am fater arall, a wnaeth yr Aelod sylwadau ac ystumiau rhywiol amhriodol pan oedd wedi meddwi; ymarweddiad yr Achwynydd ar ôl y digwyddiad a chyn-aelod o staff cymorth.

157. O ystyried y rhyddid a roddir i'r Comisiynydd, nid oedd y Pwyllgor yn cytuno â'r Aelod fod y rhain yn gwestiynau amhriodol a chytunodd ag ymatebion y

²¹ Adroddiad Panel Arbenigol Annibynnol ar Ymddygiad Patricia Gibson AS y DU (Saesneg yn unig)

Comisiynydd nad oedd dim byd amhriodol, ac eithrio mewn perthynas â dau fater lle cytunodd y Comisiynydd fod ei gwestiynau'n ymylu ar fod yn wallus.

158. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chwestiwn i'r Aelod am ei sgysiau a'i gyfathrebiadau â Phrif Weithredwr Plaid Cymru ar y pryd, ynghylch llythyr ymddiheuriad yr Aelod. Mae'r Comisiynydd wedi'i gofnodi yn gofyn i'r Aelod:

"So if his evidence is that he [the then Chief Executive of Plaid Cymru] discussed with you the allegations of drunkenness, calling the Complainant a bitch, insisting in getting into a taxi with her and Witness A against their wishes, and squeezing the Complainant's leg...he's wrong about that?"

159. Mae'r Aelod yn nodi na ddywedodd Prif Weithredwr Plaid Cymru ar y pryd hyn wrth y Comisiynydd a nododd y Pwyllgor fod y nodyn y cytunwyd arno o'r cyfweiliad gyda Phrif Weithredwr Plaid Cymru ar y pryd yn nodi:³

"[the then Chief Executive of Plaid Cymru confirmed that he was aware of the claim that RabO had squeezed the leg of [Complainant] in a taxi on 30 June 21 and that was one of the matters he was asking RaO to apologise for, although the conversation with RaO did not involve the specifics of the allegation. [the then Chief Executive of Plaid Cymru] was not aware that RaO was alleged to have called the [Complainant] a "a bitch"."

160. Yn ei ymateb a wnaed ar 9 Tachwedd, derbyniodd y Comisiynydd y pwynt a dywedodd:

"Have already accepted that this was based on an incorrect recollection of the evidence of Witness A and should not have been asked. No prejudice resulted from it."

161. Mae'r ail fater yn ymwneud â chwestiynau gan y Comisiynydd i'r Aelod yn gofyn yn gyntaf mewn cysylltiad â'r cinio ym Mwyty Côte, a oedd wedi gwneud: *"sexually inappropriate comments and gestures"*. Tynnodd yr Aelod sylw at y ffaith nad oedd y dystiolaeth a ddatgelwyd yn awgrymu unrhyw "sexual gestures" ac mae archwiliad o dystiolaeth gan Aelod o'r Senedd yn dangos, er iddi gyfeirio at sylwadau yr oedd hi'n eu hystyried yn amhriodol gan yr Aelod, na chyfeiriodd at

ystumiau (“gestures”).²² Yn ei ymateb a wnaed ar 9 Tachwedd, dywedodd y Comisiynydd:

“I accept that I misspoke and that there was no evidence of gestures at the dinner in the Côte restaurant when these comments were made. The Member has not been prejudiced by my error.”

162. Mae'r camsyniadau hyn yn destun gofid ac er bod y Pwyllgor yn cydnabod y gall dull cadarn o gwestiynu fod o fewn terfynau tegwch, mae'r Pwyllgor serch hynny o'r farn, os yw dull o'r fath yn cael ei fabwysiadu, na ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch cywirdeb y cwestiynu, yn enwedig lle'r oedd materion yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Aelod.

163. Sut bynnag, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bod y materion hyn yn ymylol i'w broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r honiadau craidd a'r dystiolaeth arall sydd ar gael ac nad oeddent wedi effeithio ar ei farn ynghylch tegwch cyffredinol y trafodion.

Materion Pellach

Cyfieithu

164. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod yr Adroddiad²³ yn rhoi manylion am geisiadau'r Aelod i'r Comisiynydd esgusodi ei hun o'r ymchwiliad gan nad yw'n gallu siarad Cymraeg ac y dylai pob gohebiaeth ag ef fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd anallu'r Comisiynydd i gynnal yr ymchwiliad yn Gymraeg hefyd ei feirniadu gan gwmsler ar ran yr Aelod yn y sesiwn dystiolaeth lafar. Gwrthododd y Comisiynydd y cais a gwnaeth drefniant cyfieithu fel y disgrifir yn yr Adroddiad.

165. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol, pan benodwyd y Comisiynydd presennol gan y Senedd, nad oedd y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ofyniad hanfodol ac roedd manyleb y rôl yn nodi fel a ganlyn:

At hynny, disgwylir i ymgeiswyr allu cyflwyno tystiolaeth o un neu ragor o'r gofynion canlynol:

- *dealltwriaeth dda o'r Senedd a'r cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae Aelodau o'r Senedd yn gweithredu ynddo;*

²² Cyfweiliad Heledd Fychan, tudalen 2 llinellau 22 – 25

²³ Paragraff 15, Adroddiad y Comisiynydd Safonau

- *hanes o gydnabod a rhannu arfer gorau gan arwain at welliant parhaus a / neu well hygyrchedd, tryloywder a hyder y cyhoedd yng ngwaith sefydliad neu ddeiliad (iaid) swydd perthnasol;*
- *Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg a/neu brofiad o weithio mewn sefydliad dwyieithog.*

166. Felly, roedd y Pwyllgor o'r farn bod penderfyniad y Comisiynydd i wrthod esgusodi ei hun o'r ymchwiliad a'i ddull o ymdrin â deunydd a gyfieithwyd yn briodol ac y byddai esgusodi ei hun a gofyn i'r Senedd gymeradwyo penodi Comisiynydd Dros Dro wedi bod yn anghymesur.

167. pan oedd cwestiynau ynghylch defnydd neu ystyr geiriau ac ymadroddion Cymraeg a Saesneg yn berthnasol wrth ystyried y dystiolaeth, rhoddodd y Pwyllgor sylw manwl i'r cyngor a ddarparwyd yn ymwneud â chyd-destun a chywirdeb y cyfieithiad.

Tystiolaeth cyn-aelod o Staff Cymorth

168. Mae Adroddiad y Comisiynydd yn nodi bod cyn-aelod o staff cymorth wedi cysylltu â'r Comisiynydd i ddweud bod ganddynt wybodaeth a oedd berthnasol i'r gŵyn. Mae'r Adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth honno. Er bod y Comisiynydd yn datgan, ar ôl dod ar draws yr unigolyn mewn cysylltiad ag ymchwiliad arall a chanfod nad oedd yn dyst boddhaol, nad oedd wedi dibynnu ar y dystiolaeth a roddwyd mewn cysylltiad â'r gŵyn hon, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Comisiynydd yn gywir i ddatgelu'r dystiolaeth yn llawn i'r Aelod. Roedd hyn yn galluogi'r Aelod i wneud cyflwyniadau pellach i'r Pwyllgor ynghylch perthynas yr Aelod â'r cyn-aelod o Staff Cymorth. O ystyried hynny, daw'r Pwyllgor i'r casgliad bod y Comisiynydd yn gywir i beidio â dibynnu ar dystiolaeth y tyst hwn ac mae'r Pwyllgor wedi nodi'r dystiolaeth yn yr un modd ond heb ddibynnu arni. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor wedi dileu cyfeiriadau at y dystiolaeth hon o'r crynodeb yn yr Adroddiad hwn.

Tystion eraill a awgrymwyd gan yr Aelod

169. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd wedi cyfweld â phob un o'r dystion a awgrymwyd gan yr Aelod ac eithrio gwraig yr Aelod a'i efaill. Eglurodd y Comisiynydd yn ei adroddiad na wnaeth gyfweld â hwy gan ei bod yn amlwg o'r cyfweiliadau â'r Aelod na fyddai ganddynt unrhyw dystiolaeth newydd ar fater a oedd yn destun dadl.

170. Ar 17 Hydref, cyn y sesiwn sylwadau llafar, daeth llythyr gan wraig yr Aelod i law'r Cadeirydd.

171. Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau gan y Comisiynydd, a ymhelaethodd ar y rhesymau a nodwyd yn ei adroddiad dros beidio â galw gwraig yr Aelod. Cyfeiriodd at y trallod y gallai cyfweliad o'r fath ei achosi, a'r tebygolrwydd y byddai'r dystiolaeth wedi ailadrodd y dystiolaeth a ddarparwyd eisoes gan yr Aelod.

172. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r eglurhad, a phenderfynodd beidio â gofyn i'r Comisiynydd ofyn am dystiolaeth bellach gan wraig yr Aelod.

173. Gofynnodd yr Aelod hefyd i'r Comisiynydd ofyn am dystiolaeth teledu cylch cyfyng o dafarn y Mount Stuart, yng nghyffiniau'r man parcio tacsis ac yn y Boom Battle Bar, yr oedd yr Aelod yn honni y byddai'n cynorthwyo ei achos. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Boom Battle Bar wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd y byddai unrhyw fideos teledu cylch cyfyng wedi cael eu dileu, nid oedd perchnogion tafarn y Mount Stuart wedi ateb ac nid oedd unrhyw deledu cylch cyfyng yn y tacsî. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chasgliad y Comisiynydd bod unrhyw dystiolaeth teledu cylch cyfyng o'r hyn a ddigwyddodd bron yn sicr wedi'i dileu cyn dechrau 2022 ac mae'n annhebygol iawn y byddai gan y staff, hyd yn oed pe bai modd dod o hyd iddynt, unrhyw atgof o'r digwyddiadau. Gan gofio dyletswydd y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad trylwyr, mae'r Pwyllgor o'r farn bod ymagwedd y Comisiynydd at y posibilrwydd o dystiolaeth teledu cylch cyfyng yn gymesur ac yn deg.

Derbyniadwyedd cwyn

174. Hon oedd y gŵyn gyntaf yr oedd yn rhaid i'r Comisiynydd benderfynu a oedd rhesymau da dros dderbyn y gŵyn y tu allan i'r terfyn amser o chwe mis ar gyfer gwneud cwyn o dan y Weithdrefn bresennol.

175. Mae'r rheolau yn nodi bod y penderfyniad ynghylch p'un a oes achos da dros oedi cyn cyflwyno cwyn yn nwylo'r Comisiynydd. Fodd bynnag, cyflwynodd yr Aelod a'r cwnsler y dylai'r Aelod fod wedi cael caniatâd i wneud sylwadau ynghylch a ddylid derbyn y gŵyn cyn i'r Comisiynydd ddod i benderfyniad ynghylch a oedd achos da.

176. Nid yw'r Pwyllgor yn canfod unrhyw reswm i amau cywirdeb penderfyniad y Comisiynydd ar y pryd nac yn sgil tystiolaeth o brofiad yr Achwynydd yn dilyn y noson dan sylw.

177. Ymhellach, mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at y ddarpariaeth yn y Weithdrefn y gall y Comisiynydd ddod ag ystyriaeth o gŵyn dderbyniadwy i ben ar unrhyw adeg am nifer o resymau, gan gynnwys nad yw bellach yn bodloni'r gofynion ar

gyfer cwyn dderbyniadwy a allai gynnwys casgliad nad yw'r rhesymau dros dderbyn y gŵyn y tu allan i'r amser bellach yn gymwys neu eu bod yn anghywir.²⁴ Pe bai'r Aelod wedi cyflwyno rhesymau cryf dros derfynu'r gŵyn ar y sail nad oedd achos da i dderbyn y gŵyn yn bodoli mwyach, yna gallai'r Comisiynydd fod wedi gwneud hynny.

Cymhelliant

178. Canfu'r Comisiynydd fod gweithredoedd yr Aelod yn amhriodol, a chytunodd y Pwyllgor fod yr ymddygiad a ganfuwyd yn ymddygiad nas dymunir ac yn gyfystyr ag aflonyddu yn unol â'r diffiniadau yn y Cod.

179. Cyflwynodd yr Aelod ddadleuon na fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn gyfystyr â throedd rywiol. Ni wnaeth y Comisiynydd unrhyw gasgliad ynghylch a oedd cyffwrdd â'r Achwynydd yn rhywiol, ac nid yw elfen rywiol yn hanfodol ar gyfer canfyddiad o ymddygiad nas dymunir neu aflonyddu o dan y Cod.

180. Cyngor cyfreithiol y Pwyllgor yw nad yw dadl yr Aelod yn adlewyrchu darpariaethau'r statudau troseddol perthnasol²⁵ a, beth bynnag, yr hyn sydd o bwys i'r Pwyllgor yw cymhwyso darpariaethau'r Cod a'r safon profi pwysau tebygolrwydd.

181. Cafodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth gan gwmsler ar ran yr Aelod yn ystod y sesiwn sylwadau llafar:

"We respectfully submit that it [putting a hand on a thigh and squeezing it hard] is as innocuous, if you accept that it happened, as squeezing somebody's arm or hugging somebody around the shoulder or that sort of thing."²⁶

182. Mae'r Pwyllgor yn gwrthod y dystiolaeth gan ei bod yn groes i Bolisi Urddas a Pharch y Senedd yn ogystal â'r diffiniadau o ymddygiad nas dymunir ac aflonyddu yn y Cod Ymddygiad.

183. O ystyried bod y Comisiynydd wedi canfod bod yr ymddygiad hwn yn ymddygiad amhriodol a'r awgrym nad oedd yr Achwynydd am adrodd y mater hwn i'r heddlu, ac felly nad oedd yn cael ei drin fel mater troseddol, canfu'r

²⁴ Gweler Rheol 5.1(a), Gweithdrefn y Senedd ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

²⁵ Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Adran 3(1) ac adran 78 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

²⁶ Paragraff 116 trawsgrifiad o gyfarfod 23 Hydref 2023

Pwyllgor nad oedd sylwadau'r Aelodau ar y cwestiwn hwn o gymorth, yn ogystal â bod yn anghywir o ystyried cyngor y Pwyllgor ei hun.

184. Nododd y Pwyllgor hefyd sylwadau y gallai'r gŵyn hon fod â chymhelliant gwleidyddol iddi o ran amseriad y gŵyn a'r digwyddiadau a ddigwyddodd ar yr un pryd. Nododd y Pwyllgor fod yr Achwynydd wedi cyfeirio at rai o'r materion parhaus a oedd yn ymwneud â Phlaid Cymru fel rheswm dros gyflwyno'r gŵyn hon. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod hon yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar y Canfyddiadau o Ffaith.

Hyd y Gŵyn a phroses benderfyniadau'r Pwyllgor

185. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith emosiynol sylweddol y mae'r gŵyn, yn enwedig yr amser a gymerwyd i ymchwilio iddi a dod i benderfyniad arni, wedi'i chael ar bawb dan sylw gan gynnwys yr Achwynydd, y tystion, yr Aelod a'r rhai sy'n agos at y bobl hyn i gyd.

186. Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelod ar 30 Mehefin – 1 Gorffennaf 2021. Daeth y gŵyn hon i law'r Comisiynydd ym mis Awst 2022 a chafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai 2023.

187. Roedd Pwyllgor o'r farn bod y gŵyn hon yn un anodd a chymhleth i'w hystyried. Roedd yr angen i geisio cyngor a sylwadau gan y Comisiynydd, ynghyd â dod o hyd i ddyddiad a oedd yn gyfleus i'r Aelod a'i gwmsler, yn golygu na ellid cynnal y sesiwn sylwadau llafar tan 23 Hydref 2023. Ar ôl i'r cyflwyniadau gael eu gwneud yng nghyfarfod y Pwyllgor, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd am dystiolaeth bellach. Ni allai'r Comisiynydd ddarparu'r dystiolaeth honno tan 12 Ionawr 2024 oherwydd yr angen i gynnal cyfweiliadau pellach, gohebiaeth gyda'r Aelod a'r Achwynydd ynghylch rhyddhau trawsgrifiad o gyfweiliad cyntaf yr Achwynydd a chyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

188. Ar ôl i'r holl wybodaeth angenrheidiol ddod i law, cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf i drafod ei benderfyniad ar 4 Chwefror 2024. Dychwelodd at ei drafodaethau mewn cyfarfodydd ar 12 a 26 Chwefror i gwblhau'r adroddiad a'r argymhellion.

6. Penderfyniad ac argymhelliad y Pwyllgor

189. Ar ôl ystyried yr holl faterion a nodir uchod, cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol mewn perthynas â'r Canfyddiadau o Ffaith yn ymwneud â gweithredoedd yr Aelod ar 30 Mehefin - 1 Gorffennaf 2021:

- Canfyddiad 1 - Ar noson 30 Mehefin 2021, cyn mynd i ginio ar gyfer Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd ym mwyty Côte, yfodd yr Aelod beint o gwrw.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 2 - Tra yr oedd yno, yfodd lawer o win.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 3 - Gwnaeth sylwadau anwedus am [Aelodau'r Senedd a staff Aelodau'r Comisiwn].

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad 4 - Ar ôl y cinio symudodd yr Aelod a nifer o Aelodau eraill i Wetherspoons lle gwnaethant gyfarfod â nifer o staff Plaid Cymru a oedd wedi bod mewn digwyddiad ar wahân.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 5 - Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi yfed maint amrywiol o alcohol ac wedi meddwi i raddau amrywiol. Roedd yr Aelod yn fwy meddw na'r lleill a oedd yn bresennol.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 6 - Gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd] mewn llais a oedd yn ddigon uchel i'w glywed gan y rhai wrth fyrddau cyfagos. [Sylwadau wedi'u dileu].

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 7 - Gwnaeth yr Aelod gyffwrdd yn amhriodol â chanol Tyst A.

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad 8 - Yn y stryd ger Wetherspoons, galwodd yr Aelod yr Achwynydd yn 'bitch' ddwywaith.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 9 - Cyffyrddodd â hi'n amhriodol drwy roi ei fraich o amgylch ei [yr Achwynydd] chanol a thynnu ei chorff yn agos at ei gorff ef.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 10 - Gan wybod nad oedd croeso iddo, aeth yr Aelod i sedd gefn tacsï ac eistedd wrth ymyl yr Achwynydd.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 11 - Yn y tacsï cyffyrddodd â'r Achwynydd yn amhriodol trwy wasgu rhan uchaf ei choes yn galed â'i law.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 12 - Pan gafodd ei herio gan Dyst A, galwodd yr Aelod hi yn 'bitch'.

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad 13 - Yn y Boom Battle Bar, eisteddodd yr Aelod, Tyst A, Tyst B, Tyst C a'r Achwynydd gyda'i gilydd am oddeutu tair awr ac yfed mwy o alcohol y talwyd am rywfaint ohono gan yr Aelod.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

Canfyddiad 14 - Tra yr oedd yno gwnaeth yr Aelod sylwadau difenwol am [Aelod o'r Senedd].

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad - Gwnaeth sylwadau difenwol hefyd am [ddau Aelod o'r Senedd].

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad 16 - Gwnaeth nifer o sylwadau cwbl amhriodol i Dyst A [sylwadau wedi'u dileu]

Ystyriodd y Pwyllgor hyn fel rhan o'r amgylchiadau cysylltiedig ond ni wnaeth unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

- Canfyddiad 17 - Erbyn iddo adael y Boom Battle Bar roedd yr Aelod yn ei eiriau ei hun yn 'very, very drunk'.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 18 - Mewn cyfarfod rhithwir gyda'r Prif Chwip ar 2 Gorffennaf 2021, cyflwynwyd manylion llawn yr holl honiadau yn ei erbyn i'r Aelod.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 19 - Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw anfonodd yr Aelod e-bost at y Prif Chwip yn ymddiheuro am ei 'ymddygiad meddwol nos Fercher.'

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 20 - Ar yr un diwrnod, anfonodd yr Aelod e-bost at Dyst A ac ymddiheurodd iddi am 'what happened on Wednesday' [30 Mehefin 2021]. [30 Mehefin 2021]

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 21 - Am tua 5pm y diwrnod hwnnw, ffoniodd yr Aelod yr Achwynydd ac, yn Gymraeg, dywedodd wrthi dro ar ôl tro ei bod yn ddrwg ganddo.

Derbyniwyd gan yr Aelod a'r Pwyllgor.

- Canfyddiad 22 - Mae'r Aelod wedi cyfaddef bod ei ymddygiad wedi achosi poen meddwl i'r Achwynydd ac i eraill. Mae ei ymddygiad yn parhau i gael effaith andwyol ar yr Achwynydd.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

- Canfyddiad 23 - Ac eithrio bod yn feddw a gwneud sylwadau anwedus i Dyst A, nid yw'r Aelod yn derbyn unrhyw ymddygiad amhriodol tuag at yr Achwynydd na Thyst A ac nid yw wedi dangos unrhyw edifeirwch am hynny.

Derbyniwyd gan y Pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor fod y canfyddiadau a dderbyniwyd (1, 2, 4, 8, 9, 10, 11 22 a 23) o'u hystyried yn eu cyfanrwydd yn torri'r rheolau a ganlyn yn y Cod Ymddygiad:

Rheol 1 Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol yn enwedig egwyddorion Parch, Uniondeb ac Arweinyddiaeth;

Rheol 3 Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol;

Rheol 4 Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu;

Rheol 6 Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un – mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) – mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.

Argymhelliad y Pwyllgor ar sancsiwn

190. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y rhain yn achosion difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad.

191. Mae enw da'r Senedd fel sefydliad, ac ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ynddo, yn dibynnu ar Aelodau'n cadw at God Ymddygiad yr Aelodau. Wrth wneud

hynny, rhaid i Aelodau ddangos uniondeb, arweinyddiaeth a pharch yn eu hymddygiad a'r esiampl y maent yn ei gosod i eraill.

192. Mae dangos uniondeb ac arweinyddiaeth yn cynnwys bod yn ymwybodol o statws Aelodau mewn perthynas â staff a gyflogir yn uniongyrchol, a gyflogir gan Aelodau eraill neu a gyflogir gan eu pleidiau gwleidyddol priodol a'r anghydbwysedd pŵer y mae hyn yn ei greu.

193. Mae'r Senedd wedi mynegi ei hymrwymiad i gynnal urddas personau eraill a gwahardd ymddygiad nas dymunir ac aflonyddu trwy fabwysiadu "Egwyddor Parch" ychwanegol i'r "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" hirsefydlog. Mae parch bellach yn un o egwyddorion allweddol bywyd cyhoeddus, ac mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad gan yr Aelod wedi dwyn anfri ar y Senedd a'i Haelodau.

194. Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi ymddiheuro ar sawl achlysur i'r Achwynydd a thyst A am ei ymddygiad ar noson 30 Mehefin 2021. Mae'r Pwyllgor yn nodi fod yr Aelod, yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, yn nodi ei fod wedi ymddiheuro a'i bod yn ddrwg ganddo os yw ei ymddygiad wedi achosi poen meddwl i'r Achwynydd. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn glir bod yr ymddiheuriadau hyn yn ymwneud â'i ymddygiad o ran bod yn feddw yn hytrach na'r honiad o gyffwrdd amhriodol y mae wedi'i wadu drwyddi draw.

195. O ran lliniaru ei ymddygiad y noson honno, dywedodd yr Aelod mewn tystiolaeth i'r Comisiynydd fod y ffaith ei fod newydd ei ethol yn Aelod wedi achosi llawer iawn o bwysau ac anhawster annisgwyl yn ei fywyd ac wedi arwain at gyfnod o yfed gormodol. Nododd y Pwyllgor hefyd y datganiadau cymeriad a ddarparwyd gan yr Aelod a oedd yn tystio bod gweithredoedd yr Aelod yn groes i gymeriad arferol yr Aelod pan fo'n sobr, ac ar adegau eraill pan fo alcohol yn bresennol, ond nid pan oedd mor feddw â'r hyn a dderbynnir y mae'r dystiolaeth yn ei dangos ar y noson dan sylw. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi ac wedi ystyried cadarnhad gan yr Aelod ei fod ef ei hun wedi cymryd camau i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

196. Ar ôl ystyried yr holl faterion a gyflwynwyd iddo, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod yr achosion o dorri'r Cod y mae'r Pwyllgor wedi'u canfod yn cyfiawnhau cyfnod o waharddiad o drafodion y Senedd.

197. Wrth ddod i'w benderfyniad ar lefel y gwaharddiad, ystyriodd y Pwyllgor nifer o ffactorau, gan gynnwys penderfyniadau Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Bumed Senedd a oedd hefyd wedi gosod sancsiynau gwahardd, er mwyn sicrhau bod y

gwaharddiad yn yr achos hwn yn sancsiwn teg a chymesur yn wyneb difrifoldeb y mater hwn.

198. Bu'r Pwyllgor yn ystyried camau lliniaru'r Aelod a'r effaith y mae'r gŵyn hon wedi'i chael nid yn unig ar y rhai dan sylw ond hefyd ar y Senedd fel sefydliad. Rhaid i'r Senedd fod yn weithle diogel a chynhwysol, lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal, ac ni all y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol i Aelodau deimlo bod ganddynt lai o bŵer neu fod yn rhaid iddynt oddef ymddygiad nad yw'n dderbyniol.

199. Er mwyn bod yn glir ynghylch y safonau a ddisgwylir gan Aelodau, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod hyn yn cyfiawnhau gwaharddiad o 42 diwrnod mewn cysylltiad â'r achosion o dorri'r Cod a ganfuwyd, ac eithrio Canfyddiad 6 nad yw'r Pwyllgor yn argymhell sancsiwn ar ei gyfer am y rhesymau a roddir ym Mharagraff 92 uchod.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn unol â pharagraff 8.22(a) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn Erbyn Aelodau o'r Senedd a Rheol Sefydlog 22.10, yn argymhell bod Rhys ab Owen AS yn cael ei wahardd o drafodion y Senedd am gyfnod o 42 diwrnod calendr, heb gynnwys toriad.

7. Materion o Egwyddor Gyffredinol

200. Dyma'r gŵyn gyntaf a ystyriwyd gan y Senedd sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag aflonyddu ac ymddygiad nas dymunir ers cyflwyno'r egwyddor Parch yn y Cod Ymddygiad a chytuno ar y Polisi Urddas a Pharch. Yn naturiol, mae nifer o wersi i'w dysgu o'r ymddygiad yn y gŵyn hon, y bydd y Pwyllgor yn myfyrio arnynt fel rhan o'i ymchwiliad parhaus ehangach i bolisi Urddas a Pharch y Senedd.

201. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw yn yr Adroddiad hwn at y materion a ganlyn.

Presenoldeb ac effaith alcohol

202. Nododd y Pwyllgor fod yfed alcohol yn ffactor arwyddocaol yn y gŵyn hon. Mae effaith alcohol yn thema gyffredin mewn cwynion mewn sefydliadau eraill, ac mae hefyd wedi cael ei nodi yn adroddiad blynyddol diweddaraf Cynllun Cwynion Annibynnol San Steffan. Gall yfed alcohol gael effaith sylweddol ar ymddygiad a'r gallu i gofio digwyddiadau. Hoffai'r Pwyllgor atgoffa'r Aelodau i gadw hyn mewn cof a'u cyfrifoldeb fel cynrychiolwyr etholedig.

Gweithdrefnau Plaid Cymru

203. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd yn dangos bod yr Achwynydd yn yr achos hwn a thyst A wedi codi'r mater y diwrnod hwnnw (1 Gorffennaf 2021) o fewn Plaid Cymru. Mae'r disgrifiad o broses fewnol y Blaid yn adroddiad y Comisiynydd yn dangos bod y prosesau a gyflawnwyd bryd hynny gan y blaid wrth ymdrin â'r mater hwn, ym marn y Pwyllgor, yn annigonol ac yn aneffeithiol. Mae'r Comisiynydd yn amlinellu yn ei adroddiad:

"POLITICAL PARTY PROCESSES

122. I had no power to investigate the processes under which the concerns expressed by the Complainant and by Witness A were handled by Plaid Cymru. It was, however, apparent, as was confirmed by the then Chief Executive, that they were very far from satisfactory....

123. Lest similarly ineffective processes exist in other political parties, I have written to the Leaders in Wales of all other parties represented in the Senedd asking them to satisfy themselves that appropriate processes are in place and known

*to all staff employed by their party and by all support staff employed by Members of their party.*²⁷

204. Adroddodd yr Achwynydd a thyst A y digwyddiad i'w rheolwyr llinell, a chafodd ei uwchgyfeirio wedyn at y Prif Chwip, a siaradodd â hwy yn ogystal â'r Aelod. O ganlyniad i'r sgysiau hyn, cytunodd yr Aelod i ymddiheuro am ei ymddygiad - rhoddwyd rhif ffôn yr Achwynydd i'r Aelod ar yr adeg honno ac fe'i galwodd wedyn i ymddiheuro. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod rhoi rhif ffôn o dan yr amgylchiadau hyn yn gam priodol i'w gymryd mewn cwyn o'r math hwn.

205. Mae'r gwaith papur helaeth a gynhyrchwyd gan yr Achwynydd a Phlaid Cymru fel tystiolaeth i'r Comisiynydd yn dangos na ddarparwyd digon o gefnogaeth i'r rhai dan sylw. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod proses briodol ar waith, ac os oedd, ni chafodd ei chyfleu i unrhyw un dan sylw. Mae angen proses glir a theg ar gyfer materion fel y rhain sy'n ddealladwy i bawb. Nid yw'n ddigon ceisio ymdrin â'r materion hyn yn fyrfyfyr. Ochr yn ochr â diffyg trefn glir, mae'n ymddangos hefyd nad oedd proses ar gyfer cysylltu â'r rhai dan sylw i sicrhau eu bod yn fodlon ar y camau a gymerwyd.

206. Mae diffyg gweithdrefn glir a gwaith papur cysylltiedig yn golygu ei bod yn anos canfod beth a ddywedwyd wrth yr Aelod ynghylch y gŵyn, neu yn wir p'un a oedd yr Achwynydd yn cwyno'n ffurfiol i'r Blaid.

Aelodau newydd yn addasu i batrymau gwaith y Senedd

207. Yn ystod yr ymchwiliad, dywedodd yr Aelod pa mor anodd oedd addasu i ddod yn Aelod, a arweiniodd ato'n yfed mwy o alcohol. Dywedodd yr Aelod ei fod yn cael trafferth rhoi'r gorau i'w yrfa gyfreithiol ac addasu i fod yn Aelod newydd ei ethol, yn enwedig o ystyried bod ei dad yn gyn-Aelod Cynulliad ac nad oedd yr Aelod wedi'i weld oherwydd cyfyngiadau Covid yng nghartref nyrsio ei dad.

208. Nododd y Pwyllgor yr effaith a gafodd yr ymchwiliad hwn ar yr Aelod a'i sylwadau ynghylch y diffyg cymorth a chynghor ar sut i ymdrin â honiadau yn y cyfryngau a'r effaith y gallai hyn ei chael ar iechyd meddwl unigolyn. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried y darpariaethau sydd ar gael i Aelodau fel rhan o'i ymchwiliad i ddarpariaethau Urddas a Pharch yn y Senedd, a gwneud yn siŵr bod y wybodaeth sydd ar gael mor glir â phosibl i wneud yn siŵr bod Aelodau'n gwbl ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn y dyfodol.

²⁷ Adroddiad y Comisiynydd Safonau, paragraff 122-123

Cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

209. Mae sylwadau trawsbleidiol yn rhan bwysig o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Nododd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan Blaid Cymru yn yr achos hwn i sicrhau y gallai Peredur Owen Griffiths fod yn rhan o'r broses o ystyried y gŵyn hon, a'i bod yn anffodus nad oedd yn gallu ystyried yr adroddiad hwn am y rhesymau a nodwyd eisoes. Er mwyn osgoi hyn rhag digwydd yn y dyfodol, byddai'r Pwyllgor yn annog pleidiau, pan fyddant yn ystyried atal Aelodau dros dro, i esgusodi eu haelod o'r Pwyllgor a'r dirprwy a enwir rhag cymryd rhan er mwyn lleihau'r posibilrwydd na fydd y blaid yn gallu cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol ar y gŵyn.

Gweithdrefnau'r Comisiynydd Safonau

210. Mae adran 5 o'r Mesur yn nodi:

Yn ddarostyngedig i adran 19 [Adroddiad Blynyddol], wrth iddo arfer unrhyw swyddogaethau, nid yw'r Comisiynydd i ddod o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y [Senedd].

211. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'i rwymedigaeth i barchu annibyniaeth y Comisiynydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer o faterion y mae'n dymuno tynnu sylw'r Comisiynydd atynt ac y mae'n gwahodd y Comisiynydd i'w hystyried.

Dewis iaith Aelodau

212. Nododd y Pwyllgor bryderon yr Aelod ynghylch gallu'r Comisiynydd i ymdrin â'r mater hwn yn Gymraeg. O ystyried cymeriad dwyieithog y Senedd a ymgorfforir yn Neddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiynydd yn cadw cofnod o ddewis iaith yr Aelodau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y gellir cyfathrebu yn newis iaith yr Aelodau.

Cyfarfod gweithdrefnol cychwynnol

213. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall y broses lle mae Comisiynydd yn ystyried cwyn fod yn gyfnod anodd llawn straen i Aelodau, yn ogystal â'r rhai sy'n gwneud cwyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai fod yn fuddiol cynnal cyfarfod gweithdrefnol cychwynnol gyda'r Aelod i egluro'r camau yn y cyfnod ymchwilio, yn enwedig mewn achosion sensitif fel yr un presennol neu lle nad yw Aelod wedi bod yn destun ymchwiliad o'r blaen. Byddai cyfarfod gweithdrefnol cychwynnol yn caniatáu cyfle i fynd i'r afael â chwestiynau a phryderon yr Aelod o'r cychwyn

cyntaf a byddai'n sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu mynegi'n glir a bod pawb yn eu deall.

Materion ychwanegol i'r gŵyn gychwynnol

214. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyngor cyfreithiol a nododd y gallai'r Comisiynydd ddilyn tystiolaeth o achosion pellach o dorri rheolau sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r Pwyllgor o'r farn, er mai mater i'r Comisiynydd yw sut y mae'n cynnal ymchwiliadau, y byddai'n ddoeth cynnwys cam penodol sy'n adlewyrchu hysbysiad cychwynnol yr Aelod pan roddir yr un manylion i'r materion hynny.

Tystion yn cysylltu â'r Comisiynydd

215. Nododd y Pwyllgor y sylw yn y cyfryngau i'r achos hwn, a oedd yn cynnwys erthygl yn ymwneud ag unigolyn yn ceisio darparu tystiolaeth i'r Comisiynydd. Nid oedd y dystiolaeth a gynigiwyd yn yr achos hwnnw yn berthnasol ym marn y Comisiynydd ac felly ni chafodd ei datgelu i'r Pwyllgor nac i'r Aelod nes i'r unigolyn gysylltu â'r cyfryngau i adrodd am hynny. Mae'r Pwyllgor o'r farn er budd tryloywder, pan fo'r Comisiynydd yn derbyn dulliau digymell o roi tystiolaeth ond yn dod i'r casgliad nad yw hynny'n berthnasol, y dylai'r Comisiynydd ystyried cyfeirio at y ffaith hwnnw ond na ddylai unrhyw fanylion pellach gael eu cofnodi yn ei adroddiad.

Atodiad A: Cronoleg o drafodion y Pwyllgor

Cronoleg ar ôl i adroddiad y Comisiynydd Safonau ddod i law, gan gynnwys cyflwyniadau.

Dyddiad	Cam gweithredu
12 Mai 2023	Adroddiad y Comisiynydd ac atodiadau yn dod i law.
19 Mai 2023	Esgusodi Peredur Owen Griffiths AS ac aelodau eraill Grŵp Plaid Cymru.
22 Mai 2023	Ystyriodd y Pwyllgor gais gan yr Aelod mewn perthynas â chyfyngu ar gylchrediad ac oedi cyn ystyried yr adroddiad. Gwrthododd y Pwyllgor y cais.
24 Mai 2023	Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod i roi gwybod iddo'r rhesymau dros wrthod y cais ac i roi manylion iddo am y cymorth sydd ar gael iddo.
24 Mai 2023	Dosbarthodd Clerc y Pwyllgor yr adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn ystyried y gŵyn.
16 Mehefin 2023	Cyflwynwyd ymateb ysgrifenedig cyntaf yr Aelod i'r Pwyllgor.
5 Gorffennaf 2023	Anfonwyd ymateb ysgrifenedig cyntaf yr Aelod at y Comisiynydd.
2 Awst 2023	Cyflwynodd y Pwyllgor gwestiynau ysgrifenedig i'r Comisiynydd ar y modd y cynhaliwyd yr ymchwiliad.
1 Medi 2023	Ymateb y Comisiynydd i gwestiynau'r Pwyllgor.
18 Medi 2023	Trafododd y Pwyllgor ymatebion y Comisiynydd a chytunodd i roi cyfle i'r Aelod wneud sylwadau. Er mwyn caniatáu digon o amser i'r Aelod ymateb a digon o amser i'r Pwyllgor ystyried ei ymateb, gohiriwyd y sesiwn tystiolaeth lafar o'i dyddiad gwreiddiol, sef 2 Hydref.
4 Hydref 2023	Ymatebodd yr Aelod i ateb y Comisiynydd dyddiedig 1 Medi.
16 Hydref 2023	Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb yr Aelod a chytunwyd y dylid rhannu'r sylwadau â'r Comisiynydd.
16 Hydref 2023	Gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelod ddarparu rhestr o'r holl wybodaeth a ddaeth i law gan y Comisiynydd yn ystod yr ymchwiliad gan gynnwys y dyddiadau y daethant i law.
18 Hydref 2023	Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd am dabl yn nodi pryd yr anfonodd wybodaeth am y gŵyn at yr Aelod.

Dyddiad	Cam gweithredu
18 Hydref 2023	Darparodd y Comisiynydd ei ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr Aelod dyddiedig 4 Hydref.
19 Hydref 2023	Darparodd yr Aelod dabl yn nodi pryd y cafodd wybodaeth am y gŵyn, rhestr o dystiolaeth tystion a rhestr o gwestiynau a sylwadau yn ymwneud â rhagfarn bosibl, sylwadau camarweiniol, cwestiynau amhriodol ac arweiniol.
23 Hydref 2023	Cyfarfod Sylwadau Llafar lle clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Malcolm Bishop CB ac anerchodd yr Aelod y Pwyllgor hefyd. Atebodd yr Aelod a Mr Bishop CB gwestiynau gan y Pwyllgor hefyd. Yn dilyn y cyfarfod Sylwadau Llafar, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiynydd i ofyn iddo ymchwilio ymhellach ac adrodd ar (i) y man codi a'r seddi yn y tacsï (ii) a oes trawsgrifiad ar gael o'r cyfweiliad gyda'r Achwynydd. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gopiau o hysbysiadau adran 11 a gyflwynwyd i dystion.
6 Tachwedd	Darparodd yr Aelod ei ymateb i sylwadau'r Comisiynydd dyddiedig 18 Hydref.
7 Tachwedd	Anfonwyd trawsgrifiad y cyfarfod ar 23 Hydref at yr Aelod.
15 - 23 Tachwedd 2023	Ymatebodd y Comisiynydd â'r wybodaeth y gofynnodd y Pwyllgor amdani ar 13 Tachwedd a bu'r Pwyllgor yn ystyried rhywfaint ohoni yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor i ddarparu'r wybodaeth i'r Aelod er mwyn iddo allu rhoi sylwadau.
29 Tachwedd 2023	Ymatebodd yr Aelod i'r Pwyllgor gyda sylwadau ar y dystiolaeth newydd.
4 Rhagfyr 2023	Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth bellach a ddaeth i law. Anfonodd y Comisiynydd restr o ganfyddiadau ychwanegol at y Pwyllgor.
5 Rhagfyr 2023	Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod gan ddarparu'r tabl o faterion ychwanegol a ddarparwyd gan y Comisiynydd ar 4 Rhagfyr, gan ofyn a fyddai'r Aelod yn fodlon â thrawsgrifiad gyda rhannau wedi'u dileu o'r cyfweiliad cyntaf â'r Achwynydd a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer dileu'r rhannau hyn.
7 Rhagfyr 2023	Ysgrifennodd yr Aelod at y Pwyllgor gan gytuno ar gael trawsgrifiad gyda rhannau wedi'u dileu a gwnaeth sylwadau ar dabl y Comisiynydd o faterion ychwanegol.
12 Rhagfyr 2023	Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiynydd i ofyn iddo fynd at yr Achwynydd i weld a oedd yn fodlon ar y trefniadau i ddileu rhannau o'r trawsgrifiad. Gofynnodd y llythyr hefyd pryd y

Dyddiad	Cam gweithredu
	cafodd yr Aelod wybod gyntaf am ddau o'r canfyddiadau ychwanegol, ac am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r tacsî.
12 Ionawr 2024	Ysgrifennodd y Comisiynydd at y Pwyllgor i'w hysbysu bod yr Achwynydd wedi cytuno i'r trefniadau ar gyfer dileu rhannau o'r trawsgrifiad. Roedd y llythyr hefyd yn ateb cwestiynau eraill gan y Pwyllgor ar ganfyddiadau a'r tacsî.
15 Ionawr 2024	Rhannwyd y trawsgrifiad gyda rhannau honno wedi'u dileu gyda'r Pwyllgor y tu allan i gyfarfod a phenderfynwyd y dylid ei rannu gyda'r Aelod.
15 Ionawr 2024	Anfonwyd y trawsgrifiad at yr Aelod.
23 Ionawr 2024	Darparodd yr Aelod sylwadau ar y trawsgrifiad.
29 Ionawr 2024	Bu'r Pwyllgor yn ystyried y trawsgrifiad gyda rhannau wedi'u dileu ac ymateb yr Aelod i'r trawsgrifiad. Cyfarfu'r Pwyllgor i wneud ei benderfyniad ar y gŵyn.
30 Ionawr 2024	Anfonodd Clerc y Pwyllgor e-bost at yr Aelod i roi ymateb y Comisiynydd iddo ynghylch ei sylwadau ar y trawsgrifiad. Dywedodd Clerc y Pwyllgor hefyd wrth yr Aelod fod y Pwyllgor wedi cytuno i symud i'r cam drafftio adroddiadau.
1 Chwefror 2024	Ymatebodd yr Aelod i'r e-bost gyda sylwadau pellach, a gofynnodd iddynt gael eu rhannu â'r Pwyllgor.
2 Chwefror 2024	Rhannwyd yr e-bost gyda'r Pwyllgor.
5 Chwefror 2024	Cytunodd y Pwyllgor ar y sancsiwn a thrafododd fersiwn ddrafft gyntaf o'i adroddiad.
26 Chwefror 2024	Trafododd y Pwyllgor fersiwn ddrafft derfynol o'r adroddiad a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar gynllun ymdrin a oedd yn cynnwys defnyddio ystafell ddarllen. Nododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan yr Aelod.